

ECO'r Wyddfa

Rhif: 446
Medi 2016
Pris: 70c

Gwobr Y Faner Werdd



Mae Parc Gwledig Padarn wedi ennill Gwobr Y Faner Werdd eto eleni: gwobr haeddiannol sy'n adlewyrchu poblogrwydd y Parc i drigolion yr ardal ac ymwelwyr a'r fro.

Cadw Cymru'n Daclus sy'n trefnu'r gystadleuaeth hon yn flynyddol, ac y mae angen anfon cais ffurfiol iddynt ym mis Ionawr yn manylu ar gynllun rheolaeth y Parc. Mae'r beirniaid fel arfer yn ymweld â'r gwahanol safleoedd yn ystod y gwanwyn, a chaiff y cystadleuwyr rybudd ymlaen llaw o'r diwrnod y byddant yn ymweld. Ond eleni, ymweliad hollol ddirybudd a gafodd staff y Parc. Er hynny, llwyddwyd i blesio'r beirniaid yn yr wyth maen prawf a ddefnyddir i gloriannu'r gystadleuaeth.

Mae'r meini prawf yn cynnwys glanweithdra, diogelwch, cynladwyedd, cadwraeth a threftadaeth, marchnata, rheolaeth a chynhwysedd cymunedol. Mae'r wythfed maen prawf yn edrych ar pa mor groesawgar yw'r Parc, ac y mae hynny yn adlewyrchu gwaith caled a diflino'r staff sy'n gofalu fod pob un o'r meini prawf yn cael eu gwireddu.

Llongyfarchwn holl staff Parc Padarn ar ennill y wobr hon, a diolch am adnodd mor arbennig o fewn ein bro; adnodd sy'n cael ei gymryd yn ganiataol yn rhy aml gennym ni drigolion.

ECO'r Wyddfa

**RHIF 446
Medi 2016**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL:

BRYNREFAIL: Mrs Lowry Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn
Hydref

Copi i law
Medi 18

Bwndelu
Medi 30

Ble
Penisarwaun

LLYTHYRAU

18 Cae Gwyn, Caernarfon. LL55 1LL
clivejames1807@btinternet.com
01286 674806

Yr Efengyl i Fro'r Eco

Fforwm Blynyddol Cynllun EfE.

Nos Lun, Medi 26 am 7 yh yng Nghapel y Rhos, Llanrug.

Elusen gofrestredig yw Cynllun EfE gyda chwe ymddiriedolwr lleol. Ei diben yw hyrwyddo Efengyl Iesu ymhlith plant a phobl ifanc Bro'r Eco. Ymhlith gweithgaredd y Cynllun yw cynnal, ers 2010, glybiau ieuentid Cristnogol yn Llanberis a Llanrug, rhedeg digwyddiadau - fel gwyliau pêl-droed, nosweithiau mewn lleoliadau fel Yr Hwylfan yng Nghaernarfon a Phasg yn y Parc, ar gyfer aelodau'r clybiau ac ysgolion Sul. Bydd ein pobl ifanc hefyd yn mynychu cyrsiau yng Ngholeg Y Bala. Yn yr ysgolion cynradd yn ogystal ag arwain gwasanaethau boreol, sefydlwyd timau 'Agor y Llyfr'.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i glywed sylwadau PAWB yn nalgylch 'Eco'r Wyddfa' am waith y Cynllun. Er hwylustod y gymuned mae amseriad y cyfarfod blynyddol wedi ei symud o fis Tachwedd i fis Medi. Mae mudiadau fel ein capeli ac eglwysi, cyngorau cymuned ac ysgolion wedi derbyn gwahoddiadau uniongyrchol i'r Fforwm. Yn ogystal mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i glywed oddi wrth unigolion - y rhai sydd cyfrannu'n uniongyrchol trwy'r banc, y nifer mawr sy'n rhoi arian ar adegau trwy'r flwyddyn a rhai efallai fyddai'n cyfrannu ar ôl gwybod mwy am ein gweithgareddau.

Yn y Fforwm bydd ein gweithiwr ieuentid Cristnogol, Andrew Settatree, yn adrodd ar ei gwaith yn ystod 2016. Oherwydd y newid yn y flwyddyn ariannol, bydd y Fantolen ddim ond ar gyfer deg mis. Wedyn bydd cyfle i drafod cynlluniau a chynnig cyfleoedd ar gyfer 2016 / 2017.

Felly bydd croeso mawr i bawb - cefnogwyr presennol, darpar gefnogwyr a 'gwrandawyr'.

Gyda diolch,
Clive James.

Gwobrau'r Mudiad Meithrin

Annwyl Olygydd,

Mae cylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi yn nalgylch eich papur bro'n gwneud gwaith hollbwysig gyda phlant bach. Ceir cyfle, gyda seremoni wobrwyo Mudiad Meithrin, i gydnabod, diolch a dathlu rhagoriaethau'r cylchoedd hyn.

Os yw darllenwyr eich papur bro yn gwybod am unigolion (yn staff neu'n wirfoddolwyr) sy'n gweithio'n ddygn mewn cylch lleol i chi, beth am eu henwebu?

Gall unrhyw un enwebu unrhyw un ac mae'r holl fanylion a'r ffurflenni enwebu ar gael yn www.meithrin.cymru/enwebu, trwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio post@meithrin.cymru. Mae'r dyddiad cau ar Fedi 16.

Mawr obeithiaf y daw llu o enwebiadau o bob cwr sy'n amlinellu rhagoriaethau'r cylchoedd gerbron y panel dyfarnu.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhiannon Lloyd

Cadeirydd Mudiad Meithrin

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon ar nos Fawrth, 20ed Medi, am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd y Prifardd Ifor ap Glyn a bydd yn trafod ei gerddi a'i rôl fel Bardd Cenedlaethol Cymru. Estynnir croeso cynnes i bawb a chroeso arbennig i aelodau newydd.

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£20.00: Teulu y diweddar Hugh Evans, Min y Don, Brynrefail; Er cof am Ralph Lewis gan Alun, Lona a'r teulu; Mair Jones 13 Tan y Buarth, Bethel; E J Thomas, Deiniolen; Er cof am Glyn Roberts (Pen Bryn Llanberis gynt); Er cof am Dewi Jones, Padarn Road, Llanberis; Rachel Thomas, Min y Rhos, Llanrug; Y Cyngorydd Edgar Owen, Glyn Awel, Waunfawr.

£10.00: Er cof am Glyn Roberts gan Nan a Carys; Eifion, Diane, Tanwen a Beti, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

£5.00: Aaron a Kim ,10 Tai Caradog; Maureen, 32 Stryd Newydd; Elsie Owen, Hafod y Rhos, Llanrug.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Gwahoddir ceisiadau am nawdd ariannol gan fudiadau o fewn y plwyf erbyn Medi 30. Ni fydd ystyriaeth i rhai a dderbynnir ar ôl y dyddiad yma.

Cysyllter â Mrs Eleri Bean, Clerc a Swyddog Ariannol, Bwthyn Isaf, Deiniolen LL55 3LS.

Rhif ffôn: 01286 871757

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

Parhad LLYTHYRAU

Drysau Agored Capeli ac Eglwysi Caernarfon

O dan gynllun "Drysau Agored" Cadw bydd capel ac eglwysi yng Nghaernarfon yn agor eu drysau i'r cyhoedd ddydd Sadwrn 17 Medi 2016.

Dyma'r amserau agor:-

10:30 – 3:30: Capel Presbyteraidd Saesneg, Y Maes; Capel Ebeneser, Tre'r Gof; Capel Salem, Penygraig; Capel Seilo, Allt Pafiliwn.

11:00 – 5:00: Eglwys St. Peblig, Ffordd Waunfawr.

2:00 – 5:00: Capel Caersalem, Stryd Garnon.

3:00 – 5:00: Eglwys Sts Fair, Stryd yr Eglwys.

Bydd gwybodaeth, cerddoriaeth, blodau a lluniaeth ysgafn ar gael wrth i chi crwydro a'u hamgylch.

Mae Capel y Maes yn adeilad Gothig hardd gyda meindwr yn arddull cynnar Saesneg gan Richard Owen. Capel Ebeneser yw enghraifft brin o gapel Wesleidd yn y dull Gothig dechrau'r 19eg ganrif. Adnewyddwyd yr ystafelloedd o dan y Capel mewn ffordd sy'n cadw'r nodweddion cynnar. Adeiladwyd adeilad hardd Capel Salem yn 1882 ar gyfer cynulleidfa annibynnol a oedd yn rhy niferus ar gyfer y capeli llai cyferbyn. Wrth ymweld â Chapel Caersalem gellir gweld addasiadau cyfoes sy'n creu gofod ar gyfer mawl cyfoes. Capel Seilio yw'r ieuangaf holl gapeli'r Dref gyda'i theatr ynghlwm. Wrth gwrs mae' eglwysi - St Peblig a Sts. Fair, yn adeiladau hynafol. Roedd un yn eglwys y Dre ac un eglwys y Gariswn.

Bydd croeso mawr, cynnes i bawb.

Clive James

18 Cae Gwyn, CAERNARFON. LL55 1LL. 01286 674806

CLWB CINIO ARFON

Os am noson hwyliog beth am ymaelodi â Chlwb Cinio Arfon am dymor 2016-2017. Mae'r clwb yn cyfarfod ar y nos Wener cyntaf o bob mis yn y Caban ym Mrynrefail. Bydd noson gyntaf y tymor cyfredol ar Fedi 2ail. gan gychwyn am 7.30pm.

Trefn y noson yw pryd tri chwrs ac yna adloniant drwy air, cân, ffilm etc. gan westeion amrywiol. Anelir hefyd i drefnu gwibdaith diwedd y tymor. Mae'r aelodau yn dod o ardal dyffryn Peris a thu hwnt. Am fwy o fanylion gellir cysylltu â'r ysgrifennydd Dafydd Williams (01286 871754).

Hwb i gymuned Llanberis



Mae Menter Cymunedol newydd gyffrous wedi ei sefydlu ym mhentref Llanberis.

Gweledigaeth Hwb Eryri yw cydweithio efo cymuned Llanberis er mwyn datblygu'r economi, diwylliant ac yn bennaf dalgylch Llanberis er budd trigolion a busnesau lleol.

Rydym yn gobeithio cydweithio a chynnig gwasanaethau ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau sydd yn mynd ymlaen yn Eryri a helpu datblygu syniadau ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi penderfynu cadw Canolfan Wybodaeth Llanberis yn agored drwy wirfoddoli oherwydd prysurdeb pentref yr Wyddfa. Mae Hwb Eryri yn sylweddoli pwysigrwydd twrisitiaeth i'r ardal arbennig yma a rydym yn gwerthfawrogi fod angen rhannu gwybodaeth a sicrhau fod profiad pawb sydd yn dwad i Lanberis yn un fythgofiadwy a gwneud hynny drwy gydweithio i hybysebu beth sydd gennym ni i gynnig.

Mae'r ddesg wedi ei lleoli yn adeilad Mynydd Gwefru, Llanberis ac yn agored pob diwrnod rhwng 10 a 2 gyda'r gobaith i ehangu gyda mwy o gymorth gwirfoddolwyr.

Os hoffech chi fwy o wybodaeth neu os byddwch gyda diddordeb i wirfoddoli gyda Hwb Eryri mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

Bydd lawnsiad swyddogol i drigolion a busnesau Llanberis, Hydref 1af yn Mynydd Gwefru.

Cysylltwch gyda ni drwy ebostio info@hwberyri.co.uk

Dilynwch ni ar Facebook am y newyddion diweddaraf neu galwch draw i'n gweld ni am banad. Edrychwn ymlaen i gwrdd a chi a byddwn yn ddiolchgar o unrhyw gymorth neu awgrymiadau sydd ganddoch.

Yn ystod y ddeufis aeth heibio ac am ddeufis!

- Cyrhaeddodd Cymru rownd gyn-derfynol Cwpan Ewrop, a dau aelod yn cael eu henwi yn Nhim y Twrnameint. Gyda diolch arbennig i swyddogion y Gymdeithas Beldroed am roi'r Gymraeg yn flaenllaw. Trueni i'r Wasg geisio suro'r berthynas â'r Orsedd, ond roedd y croeso a dderbyniodd Osian Roberts ac Ian Gwyn Hughes ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn adrodd cyfrolau. Ymlaen am Gwpan y Byd.

- Arweinwyr Brexit yn troi cefn ar eu 'buddugoliaeth'. Farage yn ymddiswyddo (ond nid o'i gyflog bras yn Senedd Ewrop). Gove yn trywannu Johnson yn ei gefn, ond yn diflannu o'r Cabinet. A Johnson yn cael ei benodi'n Ysgrifennydd Tramor. Gallai fod yn Jôc Wleidyddol y Ganrif onibai am ddifrifoldeb y

swydd.

- Theresa May yn cael ei hethol yn Brif Weinidog gan 199 o aelodau seneddol Toriaidd. Democratiaeth ar ei orau.

- Corbyn yn cael ei herio gan ei aelodau seneddol, ac Owen Smith yn cystadlu'n ei erbyn am arweinyddiaeth y blaid. Y Blaid Lafur wedi ei rhwygo ac yn wynebu costau cyfreithiol mewn achosion llys i benderfynu pa aelodau gaiff bleidleisio!

- Y Llywodraeth yn penderfynu o blaid adnewyddu Trident. Ac mewn ateb i arweinydd yr SNP yn y Senedd yn holi a fyddai'n fodlon 'pwysu'r botwm' a lladd miloedd o bobloedd diniwed, daeth YES pendant o herfeiddiol gan Theresa May, merch i weinidog efengyl tangnefedd.

- Nathan Gill, arweinydd

UKIP yng Nghymru, mewn perygl o gael ei ddiarddel o'r blaid am fynnu cadw dwy swydd, ac yn cilio o grwp ei blaid ei hun yn y Senedd.

- Cyngor Gwynedd yn ystyried ail-wampio ysgolion uwchradd y sir.

- Gemau Olympaidd Rio yn cael eu cynnal dan awyr las, heulwen ac ambell i gawod drom o law, ond cwmwl cyffuriau'n taflu cysgod tywyll dros yr holl weithgareddau.

- Yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhoi chwistrelliad sylweddol o Gymraeg a Chymreictod i dref Y Fenni a Sir Fynwy. Da deall fod perchennog un gwesty wedi anfon ei staff am gyrsiau sylfaenol yn yr iaith er mwyn gallu cyfarch – yn syml – eu cwsmeriaid; a'r cynllun wedi plesio ymwelwyr tramor, heb son am y Cymry a

ddaeth i'r eisteddfod. O na bai rhai o fusnesau'r fro hon yn dilyn ei esiampl.

- Cwmni Horizon, sydd am adeiladu gorsaf niwcliar yn yr Wylfa, yn cynnig swm sylweddol o arian i Goleg Menai. Byddai sinig yn awgrymu newid arwyddair y sir o 'Fôn Mam Cymru' i 'Moron i Fam Cymru'.

- Hofrennydd yr Awyrlu yn cael ei gorfodi i lanio ar Yr Aran uwch Rhyd-ddu, a llosgi'n ulw. Yn rhyfeddol, ni chafodd neb ei anafu. Ond o gofio fod hofrenyddion yn defnyddio Eryri yn rheolaidd ar gyfer ymarferion, teg gofyn pa drychineb allai fod wedi digwydd pe bai wedi ei gorfodi i lanio ar Yr Wyddfa?



Y Seindorf Llongyfarchiadau mawr i'r Band am ennill y wobwr 1af yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru y Fenni gyda chanmoliaeth uchel iawn am berfformiad rhagorol. Diolch i Lois Eifion am y gwaith caled mae hi yn ei wneud yn darparu'r Band. Yr oedd dau aelod o'r Band Ieuentid yn chwarae gyda'r Band am y tro cyntaf, sef Iwan Llwr Griffiths, 14oed, ac hefyd Morgan Gwyn Williams, 12oed. Cafodd y ddau brofiad mawr iawn ac mi wnaethant eu gwaith yn ardderchog. Dymunwn hefyd anfon ein llongyfarchiadau mawr iawn i Ela Haf Williams am ennill y wobwr 1af a Twm Herd, y 3ydd wobwr, o dan 16oed i offerynnau pres ar ddydd Sul cyntaf yr Eisteddfod. Aeth Ela ymlaen wedyn ar y bore dydd Llun i ennill y gystadleuaeth am

y Rhuban Glas Ieuentid ar yr un llwyfan. Mae'r ddau yn aelodau ffyddlon o'r Band a'r Band Ieuentid. Nid oes llawer o amser am egwyl gan fod y rymarferion yn ailgychwyn yn ystod mis Awst ar gyfer y gystadleuaeth fawr yn Cheltenham ym mis Medi. Cystadleuaeth Bandiau Pres Cenedlaethol Prydain Fawr, ble bydd y Band yn cystadlu yn erbyn 16 o Fandiau Pres gorau Prydain Adran 2. Rydym ni fel pentref yn hynod falch o'r band ac yn dymuno y gorau iddynt yn y gystadleuaeth. Cynhelir Cyngerdd blynyddol y Band eleni yn Theatr Seilo Caernarfon, nos Sadwrn, Hydref 29fed am 7 o'r gloch. Mwy o fanylion i ddilyn yn rhifyn Mis Hydref o'r Eco.



Yn ystod gwyliau haf eleni teithiodd Siôn ac Erin Lewis, Rhyddfadog, a'r teulu efo trelar, defaid a'r garafan o amgylch sioeau amaethyddol Cymru. Eleni roedd y tro cyntaf i'r ddau arddangos yn nosbarth y brid Defaid Llŷn ar ben eu hunain a bu'r ddau yn llwyddiannus iawn gan gipio ruban coch, glas a melyn.



Ddiwedd mis Gorffennaf cafodd tair o'r pentref - Alaw ac Anna Lewis, Rhyddfadog a Catrin Llewelyn, Clwt y Bont y cyfle i ganu yn yr Albert Hall yn Llundain. Mae'r tair yn perthyn i Gôr Ieuentid Môn, a bu'r côr yn rhan o 400 o bobl ifanc cafodd gyfle i gymryd rhan yn y BBC Ten Pieces Proms. Hoffai'r tair ddiolch i Mari Lloyd Pritchard, arweinydd y côr am y cyfle. Llongyfarchiadau mawr iddynt.



Llongyfarchiadau i Elin Dafydd am basio gradd 4 ar y corn, gyda Merit. Diolch i Gavin Saynor am ei hyfforddi. Llongyfarchiadau iddi hefyd am gael ei derbyn i Fand Sir Gwynedd. Pob lwc i ti yn mis Medi.

CYMRAEG

Parhad DEINIOLLEN

Diolch Dymuna Maureen, 32 Stryd Newydd, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau ymhell ag agos am yr anrhegion, blodau ac arian a'r llu cardiau a galwadau ffôn a gafodd ar ôl bod yn yr ysbyty yn cael pen-glin newydd. Diolch i bawb.

Diolch Dymuna Alun, Lona a'r teulu, 36 Rhydfadog, ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar o golli Ralph, brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl iawn. Diolch o galon i bawb.

Diolch Dymuna Osian Trefor, 1 Bron Helen, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ôl ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Y Fflint ac hefyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fynwy a'r cyffiniau, diolch yn fawr i bawb.

Llongyfarchiadau i Sioned Evans, 88 Pentre Helen, am fod yn llwyddiannus a phasio gradd lefel 5 mewn dysgu a datblygiad plant (ymarfer uwch) oddi wrth Dafydd, Elin Dafydd a'r teulu i gyd.

Diolch Hoffai Sioned Evans, 88 Pentre Helen, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau a'r dymuniadau gorau yn dilyn ei llwyddiant yn pasio gradd lefel 5 mewn dysgu a datblygiad plant (ymarfer uwch). Diolch i'r teulu a ffrindiau agos am yr holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cydymdeimlo Estynnwn ein cydymdeimlad at Llion Price, Hafod Olau, a'r teulu yn dilyn marwolaeth ddiweddar Elizabeth, gwraig, mam a nain annwyl iawn.

Llwyddiant Arholiadau Llongyfarchiadau mawr i holl bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant diweddar mewn arholiadau. Mae'n ddechrau cyfnod newydd i lawer mewn colegau a dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Eglwys Crist Da oedd cael croesawu y Canon Roger Donaldson, o blwyf Rheithorol Llanbeblig, i bregethu yn ein Dydd Rhodd am eleni. Mae Canon Donaldson wedi bod yn ffyddlon yma i ni yn Eglwys Crist ar hyd y blynyddoedd, pan oedd y plwyf yn ddi-offeiriad. Prin iawn y dyddiau yma bod Offeiriad Plwyf wedi mynychu Coleg yr Iesu Rhydychen a Choleg Westcott Caergrawnt. Cawsom wasanaeth i'w gofio. Diolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd i'r Sul yma.

Mae gwair y fynwent yn dal i gael ei dorri gan Berwyn Jones, a gwerthfawrogwn hynny yn fawr iawn. Diolch o galon am y caredigion hynny o bell ac agos sydd yn dal i gyfrannu er mwyn i ni gael cario ymlaen.

Dyma'r cyfraniadau ddaeth i law:

Mrs Edna Morgan, Caerdydd: £100; Mrs Gracie Tate, 1 Bro Deiniol: £20; Mr Gwenda Sayer, Caernarfon: £20; Mrs Elaine Boswer, Llundain: £40; Mr a Mrs Alun Evans, 32 Stryd Newydd: £10; Mr a Mrs Ifor Morris, 7 Min Menai, Bangor: £30; Mrs Alwena Hughes Jones, Llanrug: £20; Mrs Rowena Owen, 7 Gerddi Menai, Bangor: £50; Miss Mair Foulkes, 3 Tai Brynhyfryd, Penisarwaun: £20; Mrs Ann Owen, 48 Rhydfadog: £10.

Pe dymunech gyfrannu byddai Mrs Gwen Griffith, Fron; Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu neu unrhyw aelod o'r Eglwys yn falch o dderbyn eich rhodd.

Diolch Dymuna Aaron a Kim, 10 Tai Caradog, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a gafwyd ar enedigaeth yr efeilliaid, Gafin ag Erin.

Amrywiaeth Eryri




Mrs Betty Humphreys, Kate ei chwaer a Ken Jones

Pedwar diwrnod. Glawogydd chwyrn Sadwrn Ras yr Wyddfa; diwrnod poethaf Gorffennaf ers deng mlynedd, a niwl llethol yn lapio am Ben y Gwryd ddiwrnod lansio llyfr arbennig. Amrywiaeth rhyfeddol o dywydd mewn cyn lleied o amser, ond amrywiaeth sy'n nodweddiadol o Eryri. Ac amrywiaeth yr un mor rhyfeddol mewn ychydig dros ddau gant a hanner o dudalennau cyfrol yn dwyn yr enw 'Tales from the smoke room.' Ond fyddai rhywun ddim yn disgwyl unfurfaeth gyda dros hanner cant o awduron gwahanol yn cyfrannu i'r gyfrol.

Daeth y syniad am y gyfrol chwe blynedd yn ôl ar achlysur dathlu dau canmlwyddiant Gwesty Pen y Gwryd, ond nid llyfr am frics a mortar yw hwn, ond yn hytrach ddathliad o gysylltiadau cymeriadau o gefndiroedd gwahanol gyda'r adeilad a'i amgylchedd.

Fel y gellid disgwyl, mae cerddwyr a dringwyr yn amlwg ymhlith y cyfrannwyr; pobl fel Chris Bonington, Joe Brown a Caradog Jones, a cheir erthygl gan y diweddar John Disley a gwybodaeth am gysylltiad Chris Brasher â'r gwesty. A does dim modd osgoi enwogrwydd ei gysylltiad â'r fintai a 'goncrodd' Everest yn 1953. Ac er mai sefydliad Seisnig iawn fu Pen y Gwryd dros y ganrif ddiwethaf o leiaf, rhaid cofio mai Cymry Cymraeg lleol fu'n cael eu cyflogi i'w gynnal. Mae'r "Eco" eisoes wedi cyhoeddi erthygl Ken Jones am wasanaeth oes y ddiweddar Blodwen Griffiths, Llanberis ym Mhen y Gwryd. Ond roedd eraill o'r fro – ac o ardal Capel Curig, yn cael eu cyflogi yno hefyd. Un o'r rheini oedd Mrs Betty Humphreys, sydd bellach yn byw ym Mhlas Pen Gwaith. Dechreuodd weithio ym Mhen y Gwryd yn 1939, ond roedd ei mam, tra'n ferch ifanc yng Nghapel Curig, hefyd wedi gweithio yno: cysylltiadau teuluol â nifer o wahanol berchnogion y gwesty. A da o beth yw cael y cyfraniadau lleol hyn petai ond i'n hatgoffa na fyddai Pen y Gwryd yr hyn ydion heb lafur y trigolion lleol.



CHRIS GRIFFITHS

Trwsio Ffenestri UPVC • Drysau
Cloeau • Bachau • Twll Llythrau
Ac unedau Gwydr wedi Chwythu

18 Mill Lodge, Llandegfan, Ynys Môn LL59 5YB

01248 713 369 neu 07813 455653

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

grid 76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Ysgol Gynradd

Cystadleuaeth 'Brecon Carreg' Llwyddodd Ifan Jones a Rhys Williams o flwyddyn 3 i ennill cystadleuaeth genedlaethol 'Brecon Carreg'. Roedd rhaid dylunio label newydd ar gyfer mynd ar y poteli dŵr. Cafodd y ddau sioc fawr eu bod wedi ennill

y gystadleuaeth! Llwyddodd y ddau i ennill taleb gwerth £200 yr un a bydd eu dyluniad yn cael ei roi ar y poteli dŵr ym fis Hydref. Rydym yn edrych ymlaen yn arw i'w gweld yn y siopau! Ardderchog hogiau!



Llongyfarchiadau mawr i Cai Moss am ddod yn ail yng Nghystadleuaeth rhedeg ras fer 100m mabolgampau'r Urdd ym Mharc Eirias.

Merched Y Wawr

Cynhelir noson agoriadol tymor 2016 yn Festri Capel Cysegr am 7.30pm ar nos Fercher Medi 14eg. Trefn y noson fydd adloniant ysgafn yng nghofal 'Y Ddwy Sian' a lluniaeth ysgafn dros sgwrs i ddilyn. Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Am fwy o wybodaeth gellir cysylltu â Gwyneth Jones y llywydd (01248 670312) neu Mary W. Jones (ysg.) ar 01248 670115. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu gan obeithio am dymor llewyrchus arall i'r gangen.

Trip Ysgol Bu'r Adran Iau ar drip diwedd blwyddyn arbennig i Gulliver's World. Roedd pawb wrth eu boddau ar y reids, gan gynnwys y staff a'r rhieni! Mae'n siŵr bod y sgrechian a'r chwerthin i'w glywed yn ôl ym Methel!!

Blwyddyn 6 Daeth diwedd cyfnod i ddwsin o ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Bethel ac roedd rhaid ffarwelio hefo criw bendigedig o blant ar ddiwedd y tymor. Mae pob un ohonynt wedi gadael eu marc ar Ysgol Bethel ac fe fydd chwith mawr ar ôl pob un. Dymuniadau gorau i Cai Moss, Owain Evans, Tyler Jones, Gethyn Hughes, Sam Roberts-Jones, Joe Bennett, Millie May Williams, Millie India Jones, Cerys Roberts, Haf Williams, Erin Roberts a Beca Roberts. Gobeithio y bydd pob un ohonynt yn hapus iawn yn Ysgol Brynrefail ac yn serenennu yno!

Clwb Bro Bethel Bydd cyfarfod cyntaf o'r Clwb brynhawn Mawrth, Medi 6ed, am 2.00 yn Festri Cysegr. Neville Hughes, Bethesda, fydd yno, felly dewch draw i wrando ar sgwrs a chael cyfle i gymdeithasu dros banad ar y diwedd. Croeso cynnes i unrhyw un ymaelodi a mwynhau amrywiol sgysiau, gweithgareddau, cinio Nadolig a gwibdaith.

Diolch Dymuna Mair, 13 Tan y Buarth, ddiolch i'w theulu, cyfeillion a chymdogion o fro'r Eco am eu haelioni ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80. Diolch yn fawr iawn.

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche **BOSCH Service**

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559** **Car Service**

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

 **TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED**
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM

Sion Roberts ▶ **07759415753**
 3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
 CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Premier

Y Stofa Premier Llanrug
 Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
 Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Gwasanaethau'r Capel am fis Medi a Hydref

Medi 4ydd am 2.00. Y Parch Marcus Wyn Robinson. Croeso'n ôl i bawb.

Medi 18 ed am 2 p.m. Y Parch Ronald Williams, Caernarfon.

Hydref 2 ail am 2p.m. Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal Y Parch M. Robinson a chyfle i gyfrannu i Fanc Bwyd, Caernarfon.

Hydref 16eg am 10.00 y bore. Y Parch W.R. Williams.

Clwb Merched. Bydd y Clwb yn ail ymgynnull ar ôl yr haf gyda noson arbennig gyda Geraint Lovgreen o Gaernarfon ar nos Iau, Medi 29eg. Cynhelir y noson yma dan nawdd Llên Cymru ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni ac i weld y rhaglen gyffrous sydd wedi ei pharatoi ar gyfer y flwyddyn i ddod. Y tâl aelodaeth fydd £10 fel llynedd neu £2 am un cyfarfod. Croeso cynnes.

Profedigaeth Ar Awst 3ydd bu farw Mrs Gwenda Jones, Neuadd y Faenol, Bangor, a hyd yn ddiweddar iawn o Blas Glan Gwna, Caeathro, gwraig annwyl Mr Myfyr Jones a mam arbennig i Gavin, Keith a Karen. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yng Nghapel Seilo, Caernarfon ar Awst 10ed. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau, a hoffem fel trigolion Caeathro dalu teyrnged i Gwenda ac i Myfyr, am eu ewyllys da a'u haelioni tuag at bobl a phlant y pentref. Doedd dim yn ormod o drafferth ganddi, a chroeso wastad yn y Plas. Derbyniwch fel teulu ein cydymdeimlad dwysaf a phob bendith.

Graddio Pleser bob amser yw ymlawenhau yn llwyddiant ein pobl ieuanc. Graddiodd tair merch o'r pentref mewn prifysgolion eleni; Lliwen Haf Owen, Cae Philip - Gwyddoniaeth mewn Gwyddor Biofeddygol ym Mangor ac yn cychwyn cwrs 'physician's associate'; Gwen Angharad Thomas, Dolgynydd Uchaf - LL.B. yn y dosbarth cyntaf yn y Gyfraith ym Mangor, a Lowri Ceiriog, Erw Wen a raddiodd yn y Gyfraith yng Nghaerdydd ac sydd ar gychwyn ei erthyglau yng Nghaer.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i chi eich tair yn y dyfodol.

Llongyfarch Ganwyd merch fach i Mr a Mrs Meilir Fretwell, 22, Rhes Glan Gwna, Llinos Haf. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Bore Coffi Cynhelir bore coffi er budd Ymchwil Cancr Macmillan yn y Ganolfan yn ystod yr wythnosau nesaf. Gwyliwch allan am bosteri a dewch yn llw i gefnogi. Cysyllter â Llio Jones ar 07879 475048.

Tynfa Misol Dyma ganlyniadau Mehefin, Gorff ac Awst. Diolch eto i'r llw o drigolion Caeathro sydd yn cefnogi y dynfa ac sydd, drwy'r elw, yn helpu i feithrin pentref clos.

Mehefin: Vernon Jones, Llain Meddygon (92): £40; Yvonne Jones, Gilfach (90): £25; Dr Helen Jones, Maes y Coed (76): £15; Dewi Parry, Cefn Rhos (101): £5.

Gorffennaf: R. Chambers Jones, Hafod Wen (94): £40; (dim enw) Bryn Gwna (55): £25; Mrs Evans, Gwalia Garage (30): £15; Ceri Ann Evans, 6 Erw Wen (37): £5.

Awst: Karen Element, Plas Glan Gwna (19): £40; Michael Owen, Cae Philip, (4): £25; Peter Roscoe, Perthi, Rhos Bach (91): £15; Owie Williams, 19 Rhes Glangwna (85): £5.

Neges gan Gynghorydd Newydd Waunfawr/Caeathro

Dymuna Edgar Owen, eich cynghorydd newydd ar Gyngor Gwynedd, ddiolch o galon i bawb ddaeth allan i fwrw eu pleidlais a rhoi eu cefnogaeth iddo ar ddydd Iau, Gorffennaf 21.

Mae'n edrych ymlaen yn fawr i ddechrau ar y gwaith o gynrychioli trigolion ardal Waunfawr, Caeathro, Betws Garmon a Rhyd-ddu. Bydd yn ymuno â thîm Plaid Cymru Gwynedd sy'n arwain y Cyngor.

Hoffai ddiolch i Eurig Wyn am ei holl waith dros drigolion yr ardal ar hyd y blynyddoedd a dymuna ymddeoliad hapus iddo.

Gallwch gael gafael ar Edgar drwy ffonio 07900331939 neu drwy lythyr i Glyn Awel, Waunfawr.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Ffion a Warren Priestley, Waunfawr, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Lowri Ann – wyres gyntaf i Julie a Dennis Jones, Rhos y Grug, Ceunant.

CWMY GLO

Casgliad Sefydliad y Galon Caernarfon a'r Cylch Yn ystod mis Mehefin bu aelodau Merched y Wawr a chyfeillion eraill yn casglu arian o ddrws i ddrws i gronfa Sefydliad y Galon. Diolch o galon i bawb a fu'n casglu arian a hefyd i bentrefwyr Llanrug a Tan y Coed am gyfrannu mor hael. Cyfanswm casgliad Llanrug a Cwm y Glo oedd £880.

Undeb y Mamau Ar y Sed o Orffennaf cynhaliwyd cyfarfod yng nghanolfan Penrhyndeudraeth pryd oedd Lynne Tenby, Llywydd Byd Eang y mudiad, yn bresennol. Aeth Auriel Howel a Pauline Large i'r cyfarfod ar ran cangen Llanbeblig. Bydd y cyfarfodydd yn ail-ddechrau bnawn Mawrth, 20 Medi, am ddau o'r gloch yn Eglwys Sant Mair, Caernarfon.

Gwellhad Buan Yn ystod yr wythnosau diweddar bu Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddi ac i bawb yn y pentref sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Cydymdeimlad Yn rhifyn Mai o'r Eco, estynnwyd cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr a Mrs Hugh Jones, Seiont House, yn eu profedigaeth o golli Marian, ac yna ar Awst 6ed, daeth y newydd trist fod y ferch ieuengaf, Elizabeth, wedi ein gadael ar ôl gwaeledd hir. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod, Llion a'r plant, Malcolm, Barry, Raymond, Carwyn, Karen a Carol a'i dau frawd, Arfon a Gwyrfaï, a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Llongyfarchiadau i blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfyndirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun :Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Mehefin oedd Mrs Nani Evans, 26 Bryn Tirion, gyda rhif 16, a Gorffennaf oedd Mrs Ann Paterson 1, Bryn Tirion gyda rhif 48. Llongyfarchiadau iddynt!

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Cymanfa'r Carnifal - Nos Sul, Gorffennaf 3ydd, cafwyd eitemau gan rai o ddisgyblion Bl 3 i 6 yn ystod y Gymanfa a gynhaliwyd i ddechrau gweithgareddau wythnos Carnifal Penisarwaun. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar yr Ensemble offerynnol a'r parti canu. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i Mrs Annette Bryn Parri am ei chefnogaeth.

Rhedeg Traws Gwlad - Nos Lun, Gorffennaf 4ydd, aeth rhai o ddisgyblion Bl 5 a 6 i gymryd rhan yn y rhedeg traws gwlad yn Y Faenol. Roedd Efa, Mabli, Lauren, Alex a Gerallt wedi mwynhau'r profiad gyda llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant.

Mabolgampau - Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ysgol bnawn dydd, Iau Gorffennaf 14eg. Cafwyd pnawn bendigedig gyda phawb yn mwynhau eu hunain yn cymryd rhan. Roedd Cyfeillion yr ysgol wedi trefnu stondin i werthu diodydd, mefus a chacennau yn ogystal â raffl. Diolch i'r Cyfeillion ac i bawb a ddaeth draw i gefnogi.

Trip Ysgol - Dydd Mawrth, Gorffennaf 12fed, cafodd plant Bl.0-6 ddiwrnod o hwyl yn Gelli Gyffwrdd.

Gwasanaeth Ffarwelio - Trefnwyd gwasanaeth bnawn Gwener, Gorffennaf 15fed, er mwyn ffarwelio a dymuno'n dda i saith o blant blwyddyn 6 yr ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Uwchradd Brynrefail ym mis Medi. Roedd pob un ohonynt wedi paratoi ar gyfer darllen rhai o'u hatgofion yn yr ysgol, a gwahoddwyd rhieni ac aelodau o'r teuluoedd i'r gwasanaeth. Rhannwyd amryw o dystysgrifau a rhodd iddynt ar ran yr ysgol. Cyflwynwyd tarian disgybl y flwyddyn i Mabli ac Efa Baines a tharian ymroddiad i Gerallt Owen. Llongyfarchiadau a phob lwc iddynt i gyd.

Profion Cenedlaethol - Llongyfarchiadau i bawb ar

ganlyniadau'r profion eleni.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Awst a'r enillwyr lwcus yw: Manon Gwyn, Tan y Coed, Llanrug a Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr.

Byddwn yn trefnu gweithgareddau i Reoli'r Neuadd Gymuned yn fuan a hyderwn y cawn eich cefnogaeth arferol gan fod angen codi swm o arian at gynnal y Neuadd sydd â defnydd helaeth ohoni gan y Gymuned.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor longyfarch pawb yn eu llwyddiannau yn yr amrywiol arholiadau, gyda phob dymuniad da i'r dyfodol.

Sefydliad Prydeinig y Galon Dymuna Ann a Liz ddiolch i bawb am eu haelioni tuag at Ymchwil Sefydliad Prydeinig y Galon. Llwyddwyd i gasglu £399.15. Ardderchog wir!

Eisteddfod Bentref Do, bu'n Eisteddfod lwyddiannus eto eleni, gyda chystadlu brwd gan yr adran Cynradd, Uwch a thros 18 oed. Llongyfarchiadau i Ela, Prif Lenor Cynradd a Nia George, Prif Lenor Uwch ar eu gwaith Rhyddiaith gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniad, Mair Huws, Llanrug. Dymunir diolch i'r beirniaid i gyd am eu gwaith caled ac am eu hanogaeth a'u beirniadaethau adeiladol i'r cystadleuwyr. Diolch hefyd i Alaw Wyn am ei hanerchiad ddifyr yn olrhain ei phrofiad hi o gystadlu ar lwyfan ein Eisteddfod Bentref. Cydnabyddir yn ddiolchgar iawn ei rhodd hael i'r eisteddfod. Diolch i Anest a Lois fel cyfeilyddion ffyddlon, i'r Arweinyddion ac i holl aelodau'r Pwyllgor. Edrychir ymlaen am Eisteddfod debyg yn 2017.

Eisteddfod Genedlaethol y Fenni Llongyfarchiadau i Twm Herd ar ddod yn fuddugol am sgwennu sgript comedi ar gyfer radio.

Llongyfarchiadau i Lois Eifion ar gipio'r wobwr gyntaf fel arweinydd Band Deiniolen, i Lois ac Anest a'u dwy gyfnither ar ennill y wobwr gyntaf fel pedwarawd Cerdd Dant ac i John Eifion a Chôr y Brythoniaid ar gipio'r wobwr gyntaf i Gorau Meibion.

Llongyfarchiadau i Myfanwy a Dic Parry eto y mis hwn ar ddod yn Hen Nain a

Hen Daid i Mabon Glyn, mab bychan Manon a Cefyn ac ŵyr bach i Ffion ac Eifion, Erw Gain, Llanrug.

Pob Dymuniad Da i Cadi a Dan ar achlysur eu priodas ar Sadwrn, Awst 27ain. Mae Cadi'n wreiddiol o 11 Bryn Eglwys.

Ysgol Sul Bosra Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Medi 10fed am 10 o'r

gloch. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Gwellhad Dymunir gwellhad buani Dafydd, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, wedi triniaeth frys yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i staff Meddygfa Llanberis a staff Ward Gogarth a Tryfan am eu gofal. Diolch gan Ann, Eurgain, Bedwyr, Osian a'r teulu a Megan, chwaer Dafydd.

Cofio Mr Jones

Gorffennaf 12fed, yn 85 mlwydd oed daeth colled fawr i aelodau Ysgol Sul Bosra. Trist oedd clywed am farwolaeth un mor barchus a gwylaidd i genedlaethau o blant. Byddai Mr Jones yn y Capel ymhell o flaen pawb arall gan sicrhau yn y gaeaf oer fod y gwres ymlaen a'r drysau wedi'u cau yn dynn. Ef oedd yr Arolygwr ers blynnyddoedd, ef hefyd ofalai am y casgliad a byddai'n falch o gael rhoi arian tuag at brynu wyau Pasg ac anrhegion Nadolig i'r plant. Byddai'n cychwyn yr Ysgol Sul yn ddeddfol gyda gweddi fer a darlleniad o'r Beibl. Byddai'n gwerthfawrogi cyfraniadau'r plant yn darllen o'r Beibl Bach ac yn eu canmol a'u hannog bob amser. Roedd wrth ei fodd yn gwrando ar y plant yn canu yn y sêd fawr. Byddai'r plant yn ysu i ddangos eu lluniau a'u gwaith i Mr Jones ac yntau efo gair caredig i bob un. Bu'n cefnogi pob agwedd o weithgareddau'r Ysgol Sul ac wrth ei fodd yn gweld y plant yn cymryd rhan yn flynyddol mewn dwy Gymanfa. Bu'n ffyddlon hefyd fel aelod o Bwyllgor Cymanfa Cylch Deiniolen a Chwm y Glo. Adeg y Nadolig Mr Jones fyddai'n addurno'r Goeden Nadolig ben bore Sul a sicrhau fod yr Angel Fach yn saff ar ei brig. Roedd un aelod bach yn meddwl mai Duw ei hun oedd wedi bod yn brysur - ninnau yn egluro mai ffrind ffyddlon i Dduw oedd wedi bod wrthi a gwyddai pawb wedyn mai Mr Jones oedd y ffrind ffyddlon hwnnw.

Roedd yn hoff o ddarllen ei Feibl a chylchgronau Natur - hyd heddiw mae cenedlaethau o blant yn cofio'r pytau difyr a adroddai iddynt am ei brofiadau yn Chwarel Dinorwig ac fel gweithiwr Cynnal Ffyrdd i Gyngor Gwynedd. Dechrau 2014 gwnaed cais am Fedal Gee i Mr Jones am ei ffyddlondeb i'r Capel a'r Ysgol Sul am dros wyth deg o flynyddoedd. Bu'r seremoni gwobrwyo yng nghapel Mynydd Seion, Abergele, ddydd Iau, Hydref 2il am 2.30. Roedd Mr Jones yn falch o fod yn ddeilydd y Fedal Gee - arwydd teilwng o'i ymroddiad a'i ffyddlondeb i waith ei Arglwydd.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul am 200 y flwyddyn honno gyda chynulleidfia deilwng o rieni a chyn-aelodau yno i ddiolch i Mr Jones am ei ymroddiad. Cafodd Mr Jones y cyfle i ddangos ei Fedal a chafwyd eitemau o ddiolch iddo gan y plant gyda theisen arbennig a phaned ar y diwedd. Ond yn fuan wedi hyn cafodd godwm greulon a gwanio fu hanes ei ieuchyd. Bu farw'n dawel yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon.

Yn ôl yr emyn a genir yng Ngwasanaeth y Fedal Gee gellir cloriannu bywyd ein Mr Jones ni, brawd hoffus Nancy a Dilys, ewythr hoff a ffrind i lawer - fel un a roddodd y cyfan i'r Ysgol Sul. Hyderir y gall Anti Ann ac Anti Liz gario mlaen gyda'r gwaith clodwiw a ddangoswyd iddynt gan y bytholwyrdd Mr Jones, gan 'wneud y pethau bychain a welsant ac a glywsant gan Mr Jones'.

Melys atgofion!

Trio



Ffurfiwyd Trio ym mis Rhagfyr 2012 – gan y pianydd adnabyddus Annette Bryn Parri, sy'n huanu o bentref Deiniolen yng Ngwynedd. Mae gan aelodau Trio, sef Emyr Wyn Gibson (tenor), Bedwyr Gwyn Parri (bariton) a Steffan Lloyd Owen (bâs-bariton) leisiau gwahanol iawn i'w gilydd, ond pan fyddant yn canu gyda'i gilydd mae'r asiad lleisiol a'r harmoni yn arbennig iawn.

Llwyfannwyd perfformiad cyhoeddus cyntaf Trio yn Galeri, Caernarfon ar Fehefin 27ain 2013 gyda'r gynulleidfa gyfan ar ei thraed ar ddiwedd y cyngerdd. Meddai Dafydd Iwan, a oedd yn y gynulleidfa – 'mi wyddwn fod yna rhywbeth o bwys ar droed'. Mae'n amlwg fod y sain unigryw a gynhyrchir gan y bechgyn wedi apelio at y gynulleidfa, a'u bod o bosibl yn llenwi bwlch yn y byd canu Cymraeg gyda'r math yma o ganu. Yn ystod y flwyddyn honno roedd Trio ac Annette yn ddiolchgar i Recordiau Sain am roi cyfle iddyn nhw recordio eu halbwm gyntaf.

Rhyddhawyd yr albwm hwnnw – TRIO – ym mis Awst 2014 ac fe'i dewiswyd yn 'albwm yr wythnos' ar raglen Chris Needs (Radio Wales). Ers hynny clywir Trio yn aml ar raglenni Radio Cymru ac maent wedi ymddangos ar raglenni fel Heno, Noson Lawen a Dechrau Canu, Dechrau Canmol ar S4C. Maent wedi cynnal cyngherddau ledled Cymru a Lloegr ac yn boblogaidd iawn mewn gwasanaethau priodas.

Fel yr albwm cyntaf, mae'r albwm hwn yn cynnwys llawer o amrywiaeth o ran cynnwys ac arddull. Mae arni ganeuon gwreiddiol gan gyfansoddwyr ac awduron o Gymru, caneuon Eidalaidd a chaneuon crefyddol – a'r cyfan wedi eu trefnu i dri llais gan Annette Bryn Parri.


Bu llawer o holi am ymddangosiad yr ail albwm hwn a theimlwn yn sicr y gwnaiff roi cymaint o fwynhad i'r gwrndawyr ag y gwnaeth yr albwm cyntaf.

Meddai Dafydd Iwan, "Wrth ddymuno llwyddiant parhaol i'r hogia a'u mentor amryddawn, Annette, carwn ddiolch iddyn nhw am brofi fod doniau cerddorol bro'r llechi yn dal i ddisgleirio gystal ag erioed. Mi wn y bydd croeso brwd, a chlustiau astud, yn disgwyl 'Cân y Celt'."



Bendith

Yn Rhyddhau Albwm



Mae albwm prosiect cydweithiol y bandiau Cymraeg Colorama a Plu, 'Bendith', yn cael ei ryddhau ar Hydref 07, 2016.

Wedi adolygiadau da ar gyfer eu sengl 'Danybanc' a gafodd ei ryddhau'n ddigidol o Fai 9, 2016, bydd yr albwm 'Bendith' yn cael ei ryddhau ar Hydref 07, 2016 gyda'r prosiect yn mynd ar daith yr un wythnos.

Dywed Carwyn Ellis o Colorama:

"Rydym i gyd mor falch o'r albwm – mae wir yn gywaith berffaith o gerddoriaeth Plu a'n un innau gyda llawer o bwyslais ar harmonïau lleisiol ac offeryniaeth wahanol."

Mae caneuon yr albwm wedi eu hysbrydoli gan wreiddiau – ymdeimlad o le, teulu a chartref gyda rhan helaeth o'r caneuon wedi eu seilio ar ardal benodol o Sir Gaerfyrddin sy'n agos

iawn at galon Carwyn ac wedi enwi nifer o'r caneuon.

Cafodd yr albwm ei recordio yn stiwdios Acapela, Drwm a Masonic Lodge a'i chyd-gynhyrchu gan Mason Neely. Mae llawer o gerddorion eraill yn ymddangos ar yr albwm gan gynnwys Georgia Ruth a Patrick Rimes sy'n ychwanegu naws mwy cerddorfaol i'r caneuon. Dywed Elan Rhys o Plu:

"Rydym mor falch o'r caneuon ac yn ddiolchgar iawn i Mason am sgorio rhannau cerddorion ychwanegol. Mae nhw wir yn ychwanegu rhywbeth i'r gerddoriaeth sy'n anfon ias lawr fy nghefn i!"

Wedi ei ryddhau ar label Agati, bydd yr Albwm ar gael ar ffurf CD mewn siopau ac yn ddigidol ar iTunes, Spotify, Amazon o Hydref 07, 2016.



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Pryd bu Peris Temperance?

Daeth y llun i law gan Elwyn Searell, sy’n byw bellach yn y tŷ a arferai fod yn westy di-alcohol y Peris Temperance yn Nant Peris. Gellir gweld o’r llun ei fod led cae oddi wrth yr hen ysgol gynradd a Chapel Rehoboth. Ond ym mha gyfnod y bu’n bodoli fel gwesty?

Bum yn chwilio drwy hen gyfeirlyfrau masnach, ond yn ofer. Does dim son amdano cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac nid yw’n cael ei enwi chwaith yn llyfrau’r 1920’au.

O chwilio Cyfrifiad 1911, y tŷ agosaf at yr ysgol oedd Tan y Capel, ond tybed ai’r un adeilad oedd? Does dim son am Peris Temperance yn y cyfrifiad hwnnw. Yn y flwyddyn honno, R.T.Closs, chwarelwr 65 oed oedd yn byw yn Tan y Capel gyda’i wraig, Jane (genedigol o Dowyn, Meirionnydd), a morwyn ddwy ar bymtheg oed, Lizzie Roberts. Mae’n ymddangos fod y teulu wedi bod yno ers o leiaf 1881, gyda’r enw Tan y Capel yn cael ei ddefnyddio.

Ond ai Tan y Capel oedd Peris Temperance?



Milwr coll Llanddeiniolen – a Canada.

Mewn sgwrs ar y ffôn gyda Mrs Shirley Griffith, Caerfyrddin (Llanberis gynt) y tynnwyd fy sylw at un o blant y fro a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd tad Mrs Griffith, Robert Jones o Lanberis, yn ffrind ysgol i fachgen o’r enw David Bracegirdle Jones. Tybiai Mrs Griffith mai bachgen o Ddeiniolen oedd, ond o astudio rhestr ysgolheigion Ysgol Brynrefail, gwelir mai o Landdeiniolen y deuai, ac i’r ddau eu derbyn i’r ysgol sir yn 1905. Mae’n bosibl fod David Bracegirdle wedi symud flwyddyn yn ddiweddarach i Ysgol Sir Caernarfon.

Yn 1901 roedd y teulu’n byw yn Ty’n Llan, Llanddeiniolen, a’r tad, Francis yn disgrifio’i hun fel clochydd. Mab ydoedd Francis i David a Leticia Jones, Bryn Hyfryd, Bethel, ac yno roedd yn byw yn 1891 yn gweithio fel labrwr amaethyddol.

Yn 1901, roedd gan Francis a Mary Jones, Ty’n Llan, dri o blant: Francis, David a Leticia. Yno hefyd roedd Mary Bracegirdle, mam Mary Jones. Roedd pawb ond dau wedi eu geni yn Llanddeiniolen. Nodir fod David a Leticia wedi eu geni yn Llanwnda. Gwyddom o gofnodion diweddarach mai yn Rhostryfan y bu’r teulu’n byw am gyfnod.

Mudodd y teulu i Canada, a cheir cofnod ohonynt yn byw yn 327 McGee Street, Winnipeg. Erbyn hyn roedd Francis yn disgrifio’i hun

fel saer coed, ond does dim son am Francis, y mab hynaf. Tybed a arhosodd yng Nghymru yntau a oedd wedi gadael cartref ac yn byw rywle arall yn Canada?

Ar y pedwerydd ar hugain o fis Medi 1914 ymunodd David Bracegirdle Jones â’r fyddin. Rhifei gatradd oedd 15576. Fe’i disgrifir fel plymar o ran galwedigaeth, ac yr oedd bellach yn byw yn 490 Beverley Street, Winnipeg. Roedd eisoes wedi treulio dwy flynedd gyda’r 34th Fort Garry Horse, ac fe’i trosglwyddwyd i’r 6th Battalion, 1st Canadian Contingent. Yn y cofnodion hyn y ceir ei ddyddiad geni – 6 Medi 1894, a’r ffaith iddo gael ei eni yn Rhostryfan.

Erbyn hyn, roedd Robert Jones, Llanberis, hefyd wedi mudo i Canada, ac wedi dod i gysylltiad unwaith yn rhagor â’i gyfaill o ddyddiau ysgol. Ymunodd yntau â’r fyddin, ac anfonwyd y ddau ohonynt drosodd i Loegr.

Yn Lloegr, trosglwyddwyd David Bracegirdle Jones i’r Royal Flying Corps, a ddaeth yn ddiweddarach i gael ei adnabod fel yr RAF. Bu farw ym mlwyddyn olaf y Rhyfel Mawr, ar y trydydd o Orffennaf 1918 a’i gladdu ym mynwent Brydeinig Crony-Saint-Pierre.

Nid yw wedi ei gofnodi yn Rhestr Anrhydedd y Rhyfel Mawr, Ysgol Brynrefail.

Teulu o Gwm y Glo.

Daeth cais i law yn holi am wybodaeth ynglŷn â theulu a oedd yn byw yng Nghwm y Glo ar ddechrau’r ganrif ddiwethaf. Mae’r cyfeiriad yn cael ei enwi weithiau fel Ty Capel, a dro arall fel Tan y bryn. Brodorion o Sir Fôn oedd John Thomas a’i wraig Margaret, ac yr oedd iddynt wyth o enethod: Mary (ganed 1890), Margaret/Maggie (g.1893),

Lizzie (g.1894), Annie (g. 1897), Kate (g.1900), Helena (g. 1903), Jane (g. 1905) a Blodwen (g. 1907). Mae posibilrwydd fod Maggie ar un cyfnod wedi bod yn gweithio fel morwyn yn nhafarn Y Ffrisan. Does dim mwy o wybodaeth ar gael. Tybed oes rhai o ddisgynyddion y genethod hyn yn parhau i fyw yn yr ardal? Os oes, cysylltwch.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o’r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

DRYSAU □ FFENESTRI A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Hanner Can Mlynedd yn Ôl....

'Roedd yr haul yn tywynnu'n braf ar fore Iau, Medi'r 8fed, 1966, a phopeth yn berffaith yn fy mywyd bach i.

Geiriau olaf fy nhad cyn iddo fynd at ei waith yn y chwarel oedd, "Wnei di gofio postio fy nghwpon ffwtbol?"

"Iawn," meddwn innau.

Arwyddocâd y sgwrs fer honno oedd ei bod hi'n gyfaddawd rhwng tad trugarog a mab gwrthryfelgar yn dilyn geiriau croes y noson flaenorol. Bu hynny yn gysur mawr imi dros yr hanner can mlynedd ers hynny. Gwers chwaraeon oedd y wers cyn cinio y dydd Iau hwnnw i ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Brynrefail. Gwers bêl-droed, wrth gwrs, a hynny wrth fy modd gan mai ar gyfer hynny roeddwn i wedi dychwelyd i'r ail flwyddyn yn y chweched gan nad oedd fy mryd ar fynd i goleg na dim byd o'r fath.

Yn yr ystafell newid ar ôl y wers honno 'roeddwn i pan ddaeth disgybl arall ataf a dweud bod angen imi fynd yn syth draw at swyddfa Mr James, y prifathro. 'Does gen i ddim cof pwy oedd yr unigolyn hwnnw.

Dwn i ddim a ydy' pethau wedi newid yn yr ysgol erbyn hyn, ond yr adeg honno roedd y swyddfa yng nghefn y neuadd. Roedd ffenestr fewnol yn wynebu'r neuadd, felly roedd yn bosibl gweld o'r tu allan pwy oedd yn y swyddfa ar unrhyw adeg.

A phwy a welais i yno oedd y Parch. Alwyn Parry, ein gweinidog ni yn Y Capel Coch yn Llanberis. Fy ymateb cyntaf oedd, "O, be' mae hwn isio?"

Roeddwn i yn aelod o dîm cwis yr ifainc dan ei arweiniad ef, ond 'doeddwn i ddim yn credu bod hynny yn ddigon o reswm iddo alw draw yn yr ysgol. 'Doeddwn i erioed wedi'i weld o yn agos i'r ysgol cyn hynny.

Ei eiriau cyntaf imi oedd, "Mae yna ddamwain wedi bod yn y chwarel ac mae'ch mam yn awyddus i chi ddod adra."

Wnes i ddim gofyn iddo am unrhyw fanylion, ond mynd yn syth i chwilio am fy mag ysgol a rhoi esgidiau am fy nhraed. Yn y dyddiau hynny roedd yn rhaid i bob disgybl wisgo pypms trwy'r dydd tu mewn i'r adeilad, hyd yn oed y chweched dosbarth.

Er mwyn sicrhau hynny 'roedd yn rhaid imi gerdded drwy'r llyfrgell. Mae gen i gof o ddweud wrth rai o'm cyd-ddisgyblion, a oedd yn digwydd bod yno, fy mod yn gorfod mynd adref oherwydd damwain yn y chwarel. Yn ystod y misoedd diwethaf yn unig, 'rydw i wedi cael ar ddeall eu bod nhw wedi sylweddoli arwyddocâd yr hyn a ddywedwn i yn llawer gwell na mi.

Daeth Mr Gwyndaf Evans, yr athro Ysgrythur, ataf a gofynnais iddo yn blwmp ac yn blaen am yr hyn oedd wedi digwydd i'n nhad. Chefais i ddim ateb ganddo.

Aeth y Parch. Alwyn Parry â mi adref yn y Morris Minor gan sgwrsio ar hyd y daith am bopeth heblaw y ddamwain. Yna, ar gyrion Llanberis, gofynnodd imi sut y byddwn yn ymateb pe bawn yn derbyn newyddion drwg. Atebais innau, "Wel, bydd yn rhaid derbyn hynny, yn bydd."

Aeth y ddau ohonom yn dawedog wedyn.

Wrth gyrraedd yr allt a oedd yn arwain at ein cartref yn Victoria Villas, cysurais fy hun wrth weld nad oedd yna unrhyw un o gwmpas, dim pobl na cheir, dim ond y distawrwydd llethol arferol. Ond, wrth imi gamu dros y trothwy a gweld fy mam yn eistedd yn ei dagrau - yn y parlwr o bob man - gwyddwn fod y gwaethaf wedi



Eric a Betty Lyall ar ddiwrnod eu priodas ym 1944

digwydd. Dyna pryd y sylweddolais fod fy nhad wedi'i ladd mewn damwain yn Chwarel Dinorwig. Fo oedd y chwarelwr olaf i'w ladd yn dilyn damwain yno.

'Roedd o a chriw o ddynion dan ei oruchwyliaeth wedi bod yn ceisio diogelu "rwb" ger Y Ceiliog Mawr. Gwyddwn eu bod yn gweithio mewn lle peryglus. Fe'i clywais yn trafod y peth gyda f'ewythr Wil Llan, a oedd yn hen chwarelwr.

Ond, ac yntau yn stiward, mae'n debyg nad ystyriwn ei fod o ei hun mewn unrhyw berygl wrth ymwneud â'r dasg honno.

Cawsom ar ddeall yn ddiweddarach ei fod o ynghlwm wrth raff, bod yna dirlithriad wedi digwydd rhyngddo ef a'r man lle angorwyd y rhaff, a hynny wedi plycio'r rhaff o'i hangor ac achosi iddo syrthio i'w farwolaeth.

'Roedd y dull yr angorwyd y rhaff, a'r modd y clymwyd hi o amgylch ei ganol a'i glun, yn unol â'r drefn yn y chwarel ar y pryd.

Ymatebodd Llanberis a Dyffryn Peris mewn modd a adlewyrchai'r gymdeithas glôs a fodolai yno yn y chwedegau.

Galwai pobl acw bob awr o'r dydd a'r nos

er mwyn cydymdeimlo â ni ac, wrth gwrs, yn ôl arferiad y fro gadael offrwm neu ddanfôn, fel y dywedid yn yr ardal.

Y mae fy chwaer, Linda, yn ddiweddar iawn wedi dod ar draws dogfennau sydd yn dangos sut y gwnaeth y chwarelwyr yn y cabanau wneud casgliadau i'n cynorthwyo. Ymhlith y dogfennau hefyd roedd llythyr o gydymdeimlad gan Syr Michael Duff, perchennog y chwarel.

Ychydig wythnosau wedi'r ddamwain anfonodd ef Len, un o gydweithwyr fy nhad, draw acw gan gynnig gwaith imi yn swyddfa'r chwarel - yr offis fawr, fel y gelwid hi. Gwrthodais yn syth bin, ond nid oeddwn wedi fy nghythraddo gan ei gynnig gan, hyd heddiw, credaf mai gofal am deulu un o'i weithwyr oedd ar ei feddwl.

O fewn chwe mis 'roedd fy mam a ninnau'r plant wedi mudo o Lanberis ac wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon. Camgymeriad gwirioneddol oedd hynny ym marn fy nwy chwaer a minnau ond symudiad cwbl ddealladwy i un a oedd wedi colli'i chymar a hithau ond yn 43 mlwydd oed.

Do, fe gollasom ein tad, Eric Lyall, yn 45 mlwydd oed, mewn amgylchiadau a'n hysgydwodd ni oll, ond wrth droi cefn ar Lanberis collasom y teimlad o berthyn a'r agosatrwydd yna a oedd yn hanfod y gymdeithas chwarelyddol.

Penderfynodd Linda drosglwyddo o Aberystwyth i Fangor a hithau yn wynebu blwyddyn gradd. 'Doedd yna ddim cyfundrefn fugeiliol yn bodoli mewn ysgolion y dyddiau hynny fel a welir heddiw, ond roeddwn yn ymwybodol o ryw ofal tawel amdanaf ym Mrynrefail.

Un ar ddeg oed oedd Helen, fy chwaer ieuengaf, ar y pryd ac ar ei blwyddyn olaf yn Ysgol Dolbadarn. Bu'n rhaid iddi hi glywed y geiriau creulonaf a glywodd unrhyw blentyn erioed pan oeddem ni'n byw yn y dref. Allan yn chwarae gyda'r plant eraill oedd hi pan ofynnodd un ohonyn nhw iddi, "Oes gen ti dad?"

Do, fe aeth hanner canrif heibio ers hynny, ond mae'r atgofion mor fyw ag erioed.

Stan Lyall


stanmaberich@hotmail.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr



Cefnogi ein cymunedau



Criw prosiect Y Festri yn derbyn siec gan CCG

Mae cam cyntaf ym mhrosiect menter gelfyddydol Y Festri yn Llanberis bellach wedi'i gwblhau diolch i grant o £4146.80 gan Gronfa Buddsoddi Cymunedol Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG).

Mae'r grant wedi galluogi'r grŵp i adnewyddu adeilad Y Festri, Stryd Goodman, Llanberis. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod larymau tân, offer diogelwch tân, gosod system wresogi a gwella'r system drydanol.

Bwriad adnewyddu festri yr hen eglwys yng nghanol y pentref yw creu hwb cymunedol ar gyfer mentrau a phrosiectau celfyddydol. Dywedodd Amy de Silva o dîm Y Festri: "Roedd yr adeilad wedi bod yn wag ers blyneddau, mewn cyflwr gwael ac yn beryg. Mae'r arian rydym wedi'i dderbyn gan gymdeithas dai CCG yn help mawr, ac mae wedi'n galluogi i symud ymlaen efo'r prosiect. "Ein bwriad yw creu lleoliad yn Llanberis lle bydd cyfle i bobl o bob oedran ddod draw i ddysgu, perfformio, ymarfer ac arddangos. Rydym yn gobeithio cynnal gweithdai celf, syrca, sinema a phrosiectau cymunedol yn y dyfodol.

"Diolch enfawr i CCG am y nawdd ac i bawb sydd wedi helpu gyda'r fenter gymunedol yma."

Dywedodd Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG: "Dros y pum mlynedd diwethaf mae 220 o brosiectau cymunedol wedi derbyn grantiau gwerth cyfanswm o £1.1 miliwn drwy ein Cronfa Buddsoddi Cymunedol. Mae'r arian hyn wedi denu dros £5 miliwn i fewn i Wynedd trwy arian cyfatebol.

"Rwyf yn falch iawn o weld yr arian yma yn mynd tuag at fenter cymunedol lleol. Bob lwc i criw'r Festri gyda cham nesaf y prosiect, gobeithio bydd y fenter yn llwyddiannus iawn."

Cyfeillion Plas Pengwaith

Enillydd y Bel Bonws am fis Mehefin oedd Tomos Owen.

Sioe Ceir Clasurol o flaen Yr Amgueddfa Lechi, Llanberis, o tua 9 tan 4 ar y 4ydd o Fedi. Croeso cynnes i bawb ddod i weld ac i sgwrsio.

Llongyfarchiadau i Joshua Royle ar gael Gradd 2.1 mewn Peirianeg Sifil yng Ngholeg John Moores, Lerpwl. Fe wnaeth Josh ei Radd drwy ei waith fel Technegydd yn Adran Ymgynghori Cyngor Gwynedd.

Da iawn Josh, oddi wrth Mam a Dad, ei fab Tomi, ei chwaer

Jasmine, Nain Shirley, O'ma** a O'pa** a gweddill y teulu.

** - Nain a Taid mewn iaith yr Iseldiroedd!

Clwb 400

Ebrill: 1. John Williams - £50; 2. Mrs B Thomas, Llanrug - £30.

Mai: 1. Evan Thomas - £50; 2. Ceri Williams - £30.

Mehefin: 1. Roger Jones, Caernarfon - £50; 2. John Williams - £30.

Siop Spar a Onestop Mae'r Eco ar werth yn y ddwy siop uchod pob mis. Os nad oes copi yn amlwg i chwi, gofynnwch am gymorth un o'r staff.



Llwyddiant yn Ffrainc Ar Fai'r 29ain roedd Matheo Gachon yn chwarae i dîm a enillodd gystadleuaeth Rygbi 7 Pob-ochr Dan 16oed Ysgolion Ffrainc, yn Bordeaux.

Mae Matheo yn fab i Nia, merch Eifion a'r diweddar Gwyneth Roberts, Sŵn Y Gwynt, ac yn chwarae tros ei ysgol yn Nantes, dinas yn ne Llydaw.

Matheo yw'r bachgen yng nghanol y llun, mewn trowsus glas.



Priodas Ar Ddydd Sadwrn, Awst y 6ed priodwyd Dawn Wyn Roberts, gynt o 2 Stryd Bethesda, ac Alan Jones o Lanrug.

Diolch Dymuna Mrs Helen Morris, Ffordd Capel Coch, a Teulu Llanddaniel, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli ei brawd Glyn, Penbryn gynt. Diolch i'r cymdogion a ffrindiau am y galwadau ffôn, cardiau a'r arian tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Diolch Dymuna Derlwyn, Arfon a'r teulu, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a'r rhoddion hael, er cof am Dewi, tuag at Tŷ Gobaith. Diolch o'r galon.

Oedfaon Capel Coch

Medi 4ydd: Parchedig Eifion

Wyn Williams 10yb a 5yh
11eg: Gweinidog 10yb.
Oedfa MOLI 5yh

18fed: Mr Huw Tegid Roberts 10yb. Parti Bytholwyrdd 5yh
25ain: Oedfa Deulu 10.30yb

Dymuna Dawn ac Alan ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y llun anrhegion a dymuniadau da ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau

i Rhiannon Williams ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed ym mis Gorffennaf. Dymuniadau gorau oddi wrth Mam, Guto Selwyn a'r teulu i gyd.

Ysgol Dolbadarn

Taith i fyny'r Wyddfa

I ddathlu 120 mlynedd Rheilffordd Yr Wyddfa, cafodd ddisgyblion hynaf yr ysgol daith arbennig i ben yr Wyddfa i ddathlu. Diolch yn fawr i bawb am eu cymorth i drefnu hyn – yn enwedig Mr Ken Jones fel aelod o'r Cyngor Cymuned a chyn lywodraethwr yr ysgol. Yr oedd y plant wedi mwynhau y daith yn fawr iawn.

Diolchiadau: Diolch i galon i holl rieni a chyfeillion yr ysgol sydd wedi noddi plant ar gyfer y daith gerdded noddedig yn ddiweddar- codwyd swm anhygoel o dros £3300 ar gyfer yr achos Anthony Nolan. Bu merch Mr Jones, Sioned ar daith gerdded arbennig i 'base camp' Kilimanjaro er mwyn codi arian ac ymwybyddiaeth o'r elusen sydd wedi bod yn hanfodol i sicrhau 'donor' ar gyfer ei thad. Mae'r cyfanswn dros £5000 erbyn hyn!

Gallwch ddarllen mwy am y stori yma:-

<http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/gwynedd-headmaster-given-months-live-11492662>

Gweithgareddau awyr Agored

Yr ydym wedi bod yn ffodus iawn yn ddiweddar cael cymorth gan griw o rieni sy'n gymwys ym myd Awyr Agored. Cafodd Blwyddyn 3 ddiwrnod o ddringo ym Mrynrefail, Blwyddyn 4 taith gerdded i fyny Moel Eilio a blwyddyn 5 sesiwn caicio ar Lyn Padarn. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r rhieni hyn am roi eu hamser yn wirfoddol ac am fod mor gefnogol i waith yr ysgol- yn enwedig Mr Ben Lawes a Mr Tim Downes.

Graffiti

Daeth Andy Birch i'r ysgol er mwyn gwneud ychydig o waith celf yn yr ysgol. Cafodd Blynnyddoedd 5+6 fodd i fyw yn creu murlun o Gymru a thirlun o Eryri er mwyn gallu adnabod enwau mynyddoedd yr ardal leol. Fel syrpreis ar gyfer y plant, creodd Andy furlun arbennig ar y goliau pêl droed- un o rheiny yn lun o Gareth Bale. Bu Andy wrthi tan wyth o'r gloch un nos Wener fel bod y cyfan yn barod i'r plant ar gyfer y bore Llun. Yr oedd wynebau y disgyblion (a'r staff) werth eu gweld! Diolch o galon i bwyllgor y Ganolfan ac yn enwedig Mr Ken Jones am drefnu hyn ar ein cyfer.

Ffarwelio

Bydd angen ffarwelio a sawl wyneb cyfarwydd y tymor hwn. Mae Mrs Manon Davies wedi ei phenodi yn bartner rhifedd gyda GwE yn dilyn tair mlynedd o secondiad- dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd.

Mae Ms Lynne Parry wedi penderfynu ein gadael fel cymhorthydd er mwyn sefydlu menter gwarchod plant- pob lwc iddi i'r dyfodol. Bydd Mrs Anne Marie Griffith yn ein gadael am gyfnod o secondiad gyda Athrawon y Cyfnod Sylfaen.

Yr ydym yn ffarwelio a dau aelod o'r Corff Llywodraethol eleni sef Mrs Helen Sharp a Dr Gwyn Williams. Maent wedi gwasanaethu'r ysgol am dros i hanner canrif rhyngddynt. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt oddi wrth holl blant a staff yr ysgol.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau mawr i Mrs Owen ar enedigaeth ei merch Efa Mair Owen ac wrth gwrs i'r ddau frawd mawr Ioan a Jona.

Mabolgampau:

Cafwyd bnawn gwlyb ar gae'r Ddôl cyn diwedd tymor er mwyn cynnal y mabolgampau blyneddol.

Y tim buddugol eleni oedd Seiont- llongyfarchiadau iddynt.

Y Victor Ludorum (bachgen gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau) oedd Cian Huw Jones

Y Victrix Ludorum : Mia Eade + Harmnoy?

Cynhaliwyd Gala Nofio yn ogystal a dyma'r canlyniadau:

Y tim buddugol eleni oedd Seiont. Y bachgen gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau: Tomos Mabon Pritchard a'r genethod gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau: Awel Davies ac Elain Owen. Yn wiry r oedd safon y nofio yn arbennig o uchel eleni a braf yw gweld hynny.

Ffarwelio gyda Blwyddyn 6: Dymuna holl staff yr ysgol ddymuno'r gorau i ddisgyblion Blwyddyn 6 a fydd yn trosglwyddo i'r Uwchradd mis Medi- pob lwc i chi gyd. Yr ydym yn awyddus i groesawu y disgyblion Meithrin newydd a fydd yn mynychu'r ysgol ym mis Medi.



YSGOL WAUNFAWR

Bu'n dymor eithriadol o brysus a dyma rai o'r digwyddiadau:

Twrnaint Playstation yr Ewros 2016

Bu 6 o ddisgyblion blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn twrnaint Playstation a drefnwyd gan S4C, Siarter Iaith Gwynedd a Chwmni Da cyn y Sulgwyn. Cafodd y disgyblion ddau ddiwrnod o weithgareddau hwyl yn dysgu am wledydd Ewrop a oedd yn cymryd rhan yn nhwrmaint pêl-droed Ewrop. I goroni y cyfan bu i Elin, Osian ac Iwan ennill y gystadleuaeth a derbyn cwpan fawr i'r ysgol. Da iawn chi, camp yn wir gan fod 24 o ysgolion wedi cymryd rhan.

Twrnaint Tennis

Ddechrau Mehefin bu timau tenisyr Adran Iau yn cystadlu yn Nhwrnaint Tennis Ysgolion Arfon. Llongyfarchiadau i dîm bechgyn blwyddyn 4 sef Mabon, Eric, Gruff Llwyd a Gruff Mei am ddod yn ail. Da iawn hogiau!

Cyngerdd Band Rhanbarth Arfon

Cafodd rhieni y disgyblion sy'n derbyn gwersi offerynnol chwyth a chorn gan Mr Dylan Williams a Miss Rebeca Bateson gyfle i wrando arnynt yn chwarae'n unigol yn y Ganolfan ganol fis Mehefin. Braf oedd gweld cynifer o'r rhieni yn bresennol. Llongyfarchiadau hefyd i Fand Pres yr ysgol, sydd bellach gydag 14 o aelodau, am eu perfformiad hwy yng Nghyngerdd Band Rhanbarth Arfon.

Ymweliad blwyddyn 6 ag Ysgol Brynrefail

Bu blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail ddiwedd Mehefin a chawsant ddiwrnod gwerth chweil. Pawb yn edrych ymlaen i gychwyn ym mis Medi.

Diwrnod Mabolgampau

Hoffem ddiolch i rieni, neiniau a theidiau am gefnogi ein diwrnod Mabolgampau. Cafwyd ddiwrnod da gyda Thim Eilio yn ennill am y tro cyntaf ers chwe mlynedd. Da iawn nhw!

Dyma restr o enillwyr y marciau uchaf yn eu blwyddyn :

Dosbarth Derbyn - Llio Jones a Colin Land

Blwyddyn 1 - Abi Kay, Alaw Rowlands ac Eban Iwan

Blwyddyn 2 - Cadi Lois a Hari Llywelyn

Blwyddyn 3 - Martha Rhys,

Seren Elis ac Aled Wyn

Blwyddyn 4- Ellie Gossett a Robin Williams

Blwyddyn 5- Serenna Williams a Now Jones

Blwyddyn 6= Sophie Roughley , Chloe Ann a Gruff Jones

Pencampwyr yr ysgol eleni - Ellie Gossett a Robin Williams o flwyddyn 4

Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Diolch i'r plant am gystadlu mor frwd ac am eu hymddygiad rhagorol. Diolch hefyd i'r mamau a'r tadau a fu'n ddiwyd drwy'r dydd yn paratoi paned ar y stondinau.

Twrnaint Criced

Llongyfarchiadau mawr i dîm criced bechgyn blwyddyn 6 yn ystod yr wythnosau diwethaf. Daethant yn fuddugol yn y twrnaint i ysgolion Arfon, ennill hefyd dwrnaint ysgolion Gwynedd gan ddod yn bumed drwy ogledd Cymru. Gwych yn wir!

Tripiau ddiwedd tymor

Treuliodd y dosbarth meithrin fore ym Mharc Sipsi Caeathro ddydd Mercher, Gorffennaf y 7 fed, tra bu plant y dosbarth derbyn i flwyddyn 4 yn Gelli Gyffwrdd. Treuliodd blwyddyn 6 a 5 ddiwrnod anturus yng Nghwm Idwal dan arweiniad Steven Jones o Gwmni Awyr Agored Anelu. Mwynhaodd pawb eu tripiau a bu'r tywydd yn ffafriol i bawb.

Diwrnod o sesiynau hyfforddiant gan y plismon

Treuliodd y plismon, PC Dylan Pritchard, ddiwrnod yn rhoi gwersi ar wahanol agweddau o fod yn ddiogel. Mwynhaodd y disgyblion yn fawr a bydd rhagor o wersi yn y tymor newydd.

Noson rhieni newydd a phlant meithrin yn ymweld â'r ysgol

Cynhaliwyd noson i rieni'r tri ar hugain o blant meithrin a fydd yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi. Braf oedd gweld cymaint o rieni'n bresennol. Treuliodd y plant fore yn yr ysgol a phob un ohonynt yn blant da. Edrychwn ymlaen i'w derbyn yn y tymor newydd.

Diwrnod Ffarwelio blwyddyn 6

Cynhaliwyd cyfarfod Gwobrwyo Blwyddyn 6 yn neuadd yr ysgol ar ddydd ola'r tymor. Estynnwyd gwahoddiad cynnes iawn i rieni a neiniau a theidiau plant Blwyddyn 6 i ymuno gyda ni ac yna am banded ac ymddangosiad "Photo Story" arbennig yn neuadd yr ysgol.

Roedd pawb wedi gwisgo yn eu dillad crand a gwobrwywyd pob plentyn yn unigol am ddawn arbennig. Cyflwynwyd geiriadur, plât arbennig a tharian yn rhodd gan yr ysgol. Dymunwyd yn dda iddynt yn Ysgol Uwchradd Brynrefail ac Ysgol Friars.

Dymuniadau gorau

Hoffem ddymuno yn dda i Mr Huw Llewelyn Jones, Mrs Hywela Nagaia a Mrs Gwenda Griffiths. Anfonwn ein diolchiadau diffuant am eu gwaith a'u cyfraniad i'r ysgol a dymunwn pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Mehefin oedd: £30: Mrs Rosalind Owen, Bryn Môr; £20: Ms Catrin Lowri, 3 Croes y Waun; £10: Mrs Gwenda Griffith, Trefeddyg.

Neges gan Gynghorydd Newydd Waunfawr/ Caeathro

Dymuna Edgar Owen, eich cynghorydd newydd ar Gyngor Gwynedd, ddiolch o galon i bawb ddaeth allan i fwrw eu pleidlais a rhoi eu cefnogaeth iddo ar ddydd Iau, Gorffennaf 21.

Mae'n edrych ymlaen yn fawr i ddechrau ar y gwaith o gynrychioli trigolion ardal Waunfawr, Caeathro, Betws Garmon a Rhyd-ddu. Bydd yn ymuno â thîm Plaid Cymru Gwynedd sy'n arwain y Cyngor.

Hoffai ddiolch i Eurig Wyn am ei holl waith dros drigolion yr ardal ar hyd y blynyddoedd a dymuna ymddeoliad hapus iddo.

Gallwch gael gafael ar Edgar drwy ffonio 07900331939 neu drwy lythyr i Glyn Awel, Waunfawr.

Merched y Wawr Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor yn y Ganolfan ar nos Iau, Medi 22 am 7.30 o'r gloch. Bydd cyfle i ail ymaelodi ac estynnir croeso cynnes iawn i aelodau newydd. Bydd y Pwyllgor yn darparu lluniaeth ysgafn ar eich cyfer ac efallai y bydd cyfle i chi ddefnyddio'ch sgiliau dyfalu yn ystod y noson.

Priodasau Dymunwn longyfarch Gareth Wyn a Rhian Jones, Stad Llys y Waun ,ar eu priodas yn ddiweddar a dymunwn bob hapusrwydd ichi yma yn y Waun.

Dydd Gwener, Gorffennaf 25, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, priodwyd Rosie Brown, Stad Bryn Golau ,a Matthew Winson.

Llongyfarchiadau mawr ichi a phob hapusrwydd yn eich cartref yn ardal Wrecsam.

Babanod Bach

Llongyfarchiadau i Menna ac Elfyn, Blaen y Nant, Stad Bodhyfryd, ar ddod yn nain a thaid i ŵyr bach newydd. Ganwyd mab, Macsen, i Gwennan ac Aled, eu mab.

Merch fach, Tesni Wyn, a anwyd i Amy a Michael Pritchard, Stad Bro Waun. Llongyfarchiadau mawr ichi ac i nain Sylvia. Pob hwyl ar y magu.

Daeth Alwyn a Valmai, Garreg Fawr, yn daid a nain i Delyth Haf. Wyres fach newydd iddynt a merch i Helen a Meilyr. Llongyfarchiadau ichi ,deulu bach.

Ganwyd gorwyres i Mrs Maragret Owen, Bryn Gwylan, Ella Rose, merch fach i Dilwyn, ŵyr Mrs Owen a'i bartner, Suzy, ac mae nain Jean wedi gwirioni hefyd.

Llongyfarchiadau i Ffion a Warren Priestly, Stad Croes y Waun ar enedigaeth merch fach, Lowri Ann, sydd wedi cael ei henwi ar ôl ffrind annwyl i Ffion. Croeso ichi i'r Waun, gobeithio y byddwch yn hapus yma.

Ganwyd merch fach, Begw Grug, i Meleri Gwyrfaï a Dyfrig Evans, wyres fach i Catrin Keller, Stad Croes y Waun, a gorwyres i Nain Hen, Jina Gwyrfaï. Llongyfarchiadau mawr ichi a mwynhewch y magu.

Yr Eisteddfod

Genedlaethol Gwelwyd rhai wynebau cyfarwydd i'r pentref ar lwyfan yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Llongyfarchiadau hefyd i Llywelyn Elidyr Glyn, Llanllyfni, yn enedigol o'r Waunfawr, ar ennill cystadleuaeth Tlws er cof am Alun Sbardun Huws, a oedd yn cael ei gynnal am y tro cyntaf eleni.

Dymuno yn Dda Daeth cyfnod derbyn canlyniadau'r arholiadau unwaith eto a chawn longyfarch ein pobl ifanc ar eu llwyddiannau yn yr ysgol ac yn y colegau. Da iawn pob un ohonoch a dymunwn yn dda ichi wrth ichi ddringo i'r gris nesaf yn eich gyrfa.

Dymunwn yn dda i'r rhai bach sy'n cychwyn eu gyrfa yn y dosbarth Meithrin, yn yr ysgol Uwchradd, coleg a swydd yn ystod mis Medi.

Parhad WAUNFAWR



Ymdeoliad Ar ran rhieni y pentref hoffwn ddymuno yn dda i Mrs Gwenda Griffith, Trefeddyg, ar ei hymddeoliad ar ôl cyfnod hir o ddysgu yn Ysgol Waunfawr. Roedd ei hymroddiad yn un gwerthfawr, yn enwedig o ran yr ochr gerddorol.

Dymunwn yn dda i Mr Huw Llywelyn Jones, fu'n athro yn yr ysgol am ddwy flynedd. Diolch iddo am ei ymroddiad i'r plant yn meithrin eu hyder a'u diddordebau. Pob lwc iddo yn ei swydd newydd yn Sir Conwy.

Anfonwn ein cofion at Mrs Sian Williams, gan ddymuno ei bod yn gwella ac y gwelwn hi yn ôl yn ein mysg yn fuan. Dymunwn hefyd fod Mrs Gwennan Williams, Prifathrawes yr ysgol yn gwella. Nid oedd yn dda ei hiechyd ddiweddd y tymor diwethaf.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Awst bu Megan Griffiths yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed a bu Sion Tudur Evans, Rhoslynwyn, yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain oed. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed y bu Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen, yn ystod y mis. Llongyfarchiadau mawr ichi, Mrs Thomas, Rydych bob amser yn hwyliog a gwen ar eich wyneb.

Cofion annwyl at Mrs Alice Hughes, Stad Bryn Golau, a gyrhaeddodd ei phen-blwydd yn 94 mlwydd oed yn ystod y mis. Dymunwn ben-blwydd hapus ichi, Mrs Hughes

Diolch Dymuna Shona, Bryn Celyn, ddiolch am y dymuniadau da a dderbyniodd drwy gerdyn ac anrheg ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed. Diolch yn fawr.

Croeso Adre o'r Ysbyty i Mr Gwilym Williams, Fferm Bod Hyfryd; i Mr Rob Turner, Collfryn ac i Mrs Nans Hughes, Stad Croes y Waun. Hefyd bu Dafydd Beech, Rose Mount, yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen, yn derbyn triniaeth i'w llygaid. Dymunwn eich bod yn teimlo yn well ac yn cryfhau ar ôl cael dod adref i'ch cynefin.

Dymuno Gwellhad Anfonwn ein cofion at Mrs Buckley sydd wedi ymgartrefu yng Nghartref Preswyl Plas Pengwaith ond sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Yn derbyn gofal yn yr ysbyty wedi iddi syrthio a brifo mae Christina (10 Bryn Golau gynt). Anfonwn ein cofion cynnes ati.

Dymunwn wellhad buan i Olwen, Llidiart Wen, wedi iddi dorri ei garddwrn a'i ffêr drwy ddamwain yn ei chartref. Bydd rhaid cymryd mwy o ofal a pheidio rhuthro o gwmpas y tro nesa.

Dymunwn wellhad hefyd i Eilir Jones, Stad Tŷ Hen, wedi iddo gael anaf drwy ddamwain ar ei feic.

Gwasanaeth Eglwys y Waun

Dalier Sylw – Ni fydd gwasanaeth fore Sul, Medi 4
Medi 11: Cyfarfod Gweddi
18: Ms Iola Jones
25: Y Parch R.E. Hughes
Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod fore Sul, Medi 11 hefyd.
Croeso i blant y pentref.

AC Arfon yn galw ar y Llywodraeth i ymyrryd a gwella'r cyfleusterau sydd ar gael ym Meddygfa Waunfawr

Yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog, galwodd AC Plaid Cymru dros Arfon, Sian Gwenllian, am weithredu brys er mwyn delio â'r sefyllfa ddybryd ym Meddygfa Waunfawr.

Mae'r meddygon yn y syrjeri boblogaidd ac uchel ei pharch ym mhentref Waunfawr ger Caernarfon wedi bod yn galw ers 2005 am adeilad bwrpasol, ond maen nhw'n dal i aros i glywed a fyddan nhw'n llwyddiannus yn eu cais. Mae'r diffyg gofod yn y feddygfa yn achosi gymaint o broblemau nes bod Sian Gwenllian a'r AS Hywel Williams wedi lansio ymgyrch ar y cyd gyda staff y feddygfa er mwyn dwyn pwysau ar y Bwrdd Iechyd i symud ymlaen gyda'r cynlluniau am adeilad newydd i Feddygfa Waunfawr.

Mae'r syrjeri wedi tyfu o fod yn gwasanaethu 1,300 o gleifion pan agorwyd hi yn 1973, i fod ag 5,505 ar ei llyfrau erbyn heddiw, a dywed y pedwar meddyg bod yr adeilad – sy'n hen siop wedi ei haddasu – yn gwbwl anaddas i anghenion heddiw.

“Mae'n rhaid inni ddefnyddio yr un stafell – sef y gegin – ar gyfer tynnu gwaed, ar gyfer mamau sydd eisiau bronfwydo ac ar gyfer newid cewynau”, meddai Dr. Gwilym Pritchard, “ac mae hi mor gyfyng yma nes bod rhaid inni roi brechiadau fflui yn y coridor.” Mae gan Feddygfa Waunfawr hanes balch o roi profiad gwaith i fyfyrwyr meddygol, gyda nifer ohonynt wedi dewis aros i weithio yn yr ardal yn dilyn eu profiad positif yn y feddygfa hon, ond am y tro cyntaf eleni mae'n nhw wedi gorfod gwrthod myfyrwyr am nad oes ystafell ar gael i'r myfyrwyr gynnal eu clinigau.

“Fe gaiff hyn effaith niweidiol ar recriwtio meddygon i weithio yn yr ardal hon,” meddai Sian Gwenllian “a hynny ar adeg pan mae gymaint o feddygon teulu yng ngogledd Cymru yn tynnu at oed ymddeol – mae'n gonsyrn mawr i bobol.”

Mae gan Feddygfa Waunfawr fferyllfa-ar-leoliad a Nyrs Glinigol Arbenigol, ac maent yn ffeirio'r ychydig ystafelloedd sydd ganddynt rhwng y staff meddygol a thimau iechyd meddwl sy'n ymweld, yn ogystal a CAHMS, gwasanaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Medd Dr Gwilym Pritchard, “Mae Llywodraeth Cymru yn annog meddygfeydd fel ein un ni i ddod â gwasanaethau amrywiol i'r gymuned fel nad oes cymaint o ofyn ar bobol i deithio. Mae cysur y cleifion yn cael ei effeithio yn ogystal â chyfrinachedd, am ein bod yn cael ei gorfodi i drin pobol yn y coridor a'r gegin.”

Mae Dr. Huw Gwilym yn teimlo'n gynyddol rwystredig oherwydd diffyg gweithredu'r Bwrdd Iechyd ar y mater hwn, gan ei fod yntau a'i gyd-feddygon – Dr. Esyllt Llwyd, Dr. Siwan Gwilym a Dr. Gwilym Pritchard – wedi bod yn lleisio eu hachos ers sawl blwyddyn bellach.

“Teimlaf bod meddygfeydd gwledig yn cael eu hanghofio, ac er bod gan feddygfeydd mewn trefi a dinasoedd eu heriau eu hunain, mae'n bwysig bod meddygfeydd fel ein un ni hefyd yn derbyn cefnogaeth, gan bod llawer o bobol yn yr ardal hon yn ei gweld hi'n anodd teithio i gael gwasanaeth, ac yn dibynnu arnom ni am ofal. Rydw i'n teimlo nad ydym wedi derbyn cefnogaeth ddigonol gan y Bwrdd Iechyd ar y mater hwn.”



KERFOOTS EST 1874
136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth i bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

=====

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

=====

www.kerfoot.com enquiries@kerfoot.com
Tel: 01766 512256



HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
Eboost- lisa.huw@btinternet.com



ORIEL CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

Gwaith trwsio.



Yn ystod gwyliau'r haf fe gwblhawyd gwaith clytio sylweddol ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ymddiheurodd Cyngor Gwynedd o flaen llaw am yr anhwylustod anochel i drafnidiaeth ac eiddo lleol dros gyfnod y gwaith. Y disgwyl oedd y buasai'r contractwr yn cymryd oddeutu wythnos a hanner i wneud y gwaith; fodd bynnag, fe gwblhawyd y gwaith mewn pedwar diwrnod. Esboniodd y Cyngorydd Charles Wyn Jones mai cynllun i'w gario allan dros ddwy flynedd yw dod â Ffordd yr Orsaf i fyny i safon. "Oherwydd y gost", meddai, "a diffyg arian ar gyfer y math yma o waith, mae'r cynllun yn cael ei gario allan mewn dau ran. Mae'r gwaith mwyaf sylweddol wedi ei wneud eleni, sef y gwaith o baratoi y ffordd ar gyfer dresin newydd o gerrig mân (chippings). Y bwriad presennol yw gosod y cerrig mân y flwyddyn nesaf." Ychwanegodd, "Dwi'n disgwyl i'r anhwylustod fod dipyn llai wrth gario allan y rhan olaf o'r gwaith. Hefyd, diolch i bawb am eu cydweithrediad eleni."



Priodas Ar 10fed o Awst priodwyd Meilyr Siôn Owen, mab Elsie a'r diweddar John Owen, Hafod y Rhos, gyda Ceridwen Fox o Rhosgadfan, merch David a Caroline. Priodwyd hwy yn Eglwys Sant Tysilio, Porthaethwy a chafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Victoria, Llanberis. Llongyfarchiadau mawr oddi wrth y ddau deulu



Haf Thomas a Megan Williams yn cyflwyno cerdyn ac anrheg arbennig i Iolo Llywelyn.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchwyd Mr Iolo Llywelyn, 18 Cae Garnedd, Bangor (gynt o Pant Afon, Llanrug) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Cyflwynodd y gweinidog anrheg o groes Geltaidd ar lechen iddo ac fe'i cyfarchwyd ar ran aelodau Capel y Rhos gan Haf Thomas, oedd hefyd wedi gwneud cerdyn pen-blwydd arbennig iawn iddo

Plaid Cymru. Enillwyr y Clwb Cant: Mis Gorffennaf: 1. Gwenda Roberts; 2. Meryl Green.

Mis Awst: 1. Enid Williams; 2. Megan Roberts.

Casgliad Sefydliad y Galon Caernarfon a'r Cylch Yn ystod mis Mehefin bu aelodau Merched y Wawr a chyfeillion eraill yn casglu arian o ddrws i ddrws i gronfa Sefydliad y Galon. Diolch o galon i bawb a fu'n casglu arian a hefyd i bentrefwyr Llanrug a Tan y Coed am gyfrannu mor hael. Cyfanswm casgliad Llanrug a Cwm y Glo oedd £880.

Llongyfarchiadau Dymunwn longyfarch ein pobl ifanc a rhai h'n sydd wedi llwyddo mor ardderchog mewn arholiadau. Pob dymuniad da i bawb i'r dyfodol yn eich dewis yn dilyn y canlyniadau.

Hefyd i'r holl gystadleuwyr yn ein Eisteddfod Genedlaethol a fu mor llwyddiannus wedi gwaith caled.

Graddio. Dymuna rhieni Lynwen Ann Hamer, 16 Rhos Rug, ei llongyfarch am raddio gyda 2.1 mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor. Mae yn awr wedi llwyddo i gael swydd gyda Chynulliad Cymru. Pob lwc i'r dyfodol – da iawn chi.

Merched y Wawr Bydd y tymor yn aildddechrau am 7.30 nos Fawrth, Medi 13eg yn y Sefydliad Coffa. Karen Owen o Benygroes fydd yn ein diddori. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Diolchiadau Mae Iolo Llywelyn yn dymuno diolch o waelod calon am yr holl gardiau o ewyllys da ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd, gormod iddo allu eu cydnabod i gyd. Yn arbennig mae ganddo eisiau diolch i'r Parchedig Marcus Robinson, a swyddogion ac aelodau Capel y Rhos am yr anrheg hardd a roesant iddo, ac i Haf Tomos, Buarthau am ei cherdyn arbennig hithau o Bulpud y Capel.

Diolchiadau Dymuna Rachel a theulu'r diweddar J.O. Roberts ddatgan eu diolch diffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl iawn. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ymchwil y Galon.

Dyma englyn o deyrnged i John gan ei gefnder, y Parchedig John Owen:

Hwn eurodd ddawn y Cyfarwydd – â iaith
Ddethol y Clasurydd,
Y di-gymar lefarydd
Ac actor-ddoethor ei ddydd.

John Owen
Anfonwn ein cofion diffuant
atat, Rachel, yn dy golled fawr.

Babi Newydd
Llongyfarchiadau mawr i Nan a Siôn Humphreys, Pant Bryngwyn, Tan y Coed, ar ddod yn nain a thaid i fab bach newydd Gwennan ac Aled, sef Macsen Siôn. Pob bendith i chi fel teulu.

Ganwyd merch fach, Beti Mererid, i Eifion a Diane Fretwell, 3 Rhos Disgwylfa, chwaer fach i Tanwen.

Dymuna'r teulu bach ddiolch o galon am y rhoddion a'r anrhegion a dderbyniodd Beti ar ei genedigaeth.

Profedigaeth Cofiw'n at Iwan a Gwenda Roberts, Lleifior, Ffordd yr Orsaf, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem yn colli tad Iwan, sef y Parch Huw Gwynfa Roberts. Bydd yn golled fawr ichi, yn enwedig yn dilyn y gofal angenrheidiol gafodd gennych yn ystod ei waeledd.

Brysiwch Wella Cafodd Rhydwen Pugh, Glanffynnon a Mai Davies, Ffordd yr Orsaf lawdriniaeth yn ddiweddar a deallwn eu bod yn gwella. Cofion gorau at Dafydd Lloyd Owen, Crawia, sydd yn dal i dderbyn triniaeth yn yr ysbytai lleol ac ymhellach. Meddwl amdanat, Dafydd.

Profedigaeth Dymunwn gydymdeimlo ag Emyr a Janice, Glanffynnon a'r teulu oll yn eu profedigaeth yn colli ei frawd, sef Dewi, a oedd yn byw yn Llanberis.

Profedigaeth Anfonwn ein cofion at deulu Bron Wenda, sef Sian, Kevin, Tomos, Hanna a Harri Tulliver. Maent wedi colli Sion Evans, Bron y Wyddfa oedd yn frawd annwyl iawn i Sian ac yn ewythr hoff i'r plant. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr a chi yn ein profedigaeth.

Diolch. Dymuna Sian, Kevin, Tomos Hanna a Harri ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn marwolaeth sydyn Siôn Evans, a oedd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn hanner cant. Diolchir yn arbennig i'w gymorthyddion, gan gynnwys merched Cymorth Llaw a Dr Huw Gwilym a gweddill Meddygfa Waunfawr. Diolch hefyd i'r Parchedig Ganon Townsend a'r Parchedig Cen Llwyd am gymryd

y gwasanaeth, Gwynfor Jones (E.W. Pritchard) y Cyfarwyddwr Angladdau ac Angela Williams (Wavells) am baratoi'r lluniaeth.

Carai Siân rannu ychydig o'i theyrnged i'w brawd annwyl:

'Well, I've done my bit' oedd un o'i frawddegau olaf i mi pan sylweddolodd bod y diwedd yn agosáu. Dim o gwbl yr oedd o'n deall gwirionedd llawn y frawddeg fach yna. Doedd o ddim yn wyddonydd nac yn athro, ond iechyd, fe ddysgodd lot fawr o bethau i ni fel teulu ac yn enwedig i'r plant ac mae Kevin a finne yn ddiolchgar iawn iddo am hynny – dysgu pob math o bethau megis pysgota, saethu, cymysgu sment, dechrau tân, ond yn bennaf – sut i fod yn ddewr a byw bywyd heb dychan, a gwneud y gorau o beth sydd gennym ni.

Roedd o'n cyfoethogi bywydau pawb oedd yn ei adnabod trwy ei ddewrder yn ymlwybro gyda'r clefyd di-drugaredd yna, Muscular Dystrophy. Roeddwn i yn 10 oed ac ynte'n 8 pan gawsom y newyddion difrifol yna a liwiodd ein bywydau ni am byth. Afiechyd o'r groth a wanhaoedd ei gyhyrau yn raddol bach.

Fe oedd y sbardun i greu hafanau o lonyddwch er mwyn meithrin bywyd gwyllt trwy greu llyn yn Cellan, Llanbedr Pont Steffan, ac yna llyn hyfryd arall yn ei gyn gartref, Glanbrân. Pan ddoth i fyw yn Bron yr Wyddfa, Llanrug, dros bedair mlynedd yn ôl, yn amlwg doedd yna ddim lle i lyn ond mae ei bwl bach a'r holl flodau yn ei ardd yn denu anifeiliaid gwyllt di-rif..

Mae amryw o'i ofalwyr, ffrindiau a theulu wedi nodi pa mor 'sbesial' oedd Siôn ac yn teimlo taw braint oedd cael ei adnabod – dyn hynod annwyl a chyfeillgar a thrwy'r amser yn meddwl am eraill. Fyddai e byth eisiau ypsetio neb a chymerodd ddiddordeb yn yr hyn oedd gan bawb i'w rannu gyda fe.

Er nad oedd yn gryf, roedd ei bresenoldeb, ei gyfeillgarwch, ei ffyddlondeb, ei gefnogaeth a'i ddiddordeb ynom ni i gyd yn enfawr ac yn amhrisiadwy ac rydym mor, mor ddiolchgar o fod wedi ei gael yn frawd ac wncwl mor annwyl. Cyfoethogodd ein bywydau ni yn aruthrol, a bydd o'n dal i wneud hynny - trwy ein hatgofion. Wynebodd ei

afiechyd trwy ei fywyd yn urddasol ac ymlwybrodd heb gwyno. Roedd ei gariad tuag at ei deulu a'i allu i wella bywyd natur ei gynefin yn ysbrydoledig. Diolchwn yn fawr iawn i ti, Siôn, am fod yn gefn i ni trwy ein bywydau a byddi yn ein meddyliau ac yn cario ymlaen i'n hysbrydoli tra byddwn yn byw ac yn bod.

Diolch Dymuna Michael ac Elen Jones o Glanmoelyn ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i gronfa eu baban bach, Hari. Maent yn gwerthfawrogi caredigrwydd pawb. Cydnabyddir rhodd Côr Cofnod, Caernarfon a thrigolion a ffrindiau Hafan Elan, Llanrug, ac mae llawer eraill sy'n dymuno bod yn ddi-enw.

Dymunwn y gorau i Hari bach sy'n dal i gael gofal arbennig yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Pob bendith arnoch fel teulu.

Capely Rhos Gyda'r gweinidog, y Parch Marcus Robinson yn gweinyddu, cafwyd dau fedydd yn ystod mis Gorffennaf. Ar y 3ydd o'r mis bedyddiwyd Efa Fflur Roberts Hughes, 18 Cefn Elan, merch fach Garry Roberts a Sarah Hughes.

Yna ar y 17eg o'r mis cafwyd bedydd Seren Celyn Olwen, merch fach Ceri a Bryn Thomas, Porthmadog. Mae'n wyres fach i Gareth a Jennifer Thomas, Glanffynnon. Dymunwn y gorau i'r ddau deulu bach.

Profedigaeth Yn sydyn ond yn dawl yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, bu farw Emyr Tomos (Tomi), o Tan y Cae, Tan y Coed, yn 61 mlwydd oed. Priod annwyl Delyth, brawd Dewi a brawd yng nghyfraith Dylan a Julie. Colled drist i'w deulu a'i ffrindiau oll. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlogfa Bangor ar 23ain o Fai.

Diolch Dymuna Delyth, a theulu y diweddar Emyr Tomos, Tan y Cae, Tan y Coed, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth yn dilyn eu profedigaeth o golli Emyr. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael tuag at y Feddygfa yn Waunfawr.

Oedfaon mis Medi

4: Y Gweinidog, y Parch Marcus Robinson. Gweinyddir y cymun yn yr oedfa hon.

11: Dr Huw Tegid Roberts

18: Y Gweinidog

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870292



Tymor y Gwyliau Mae tymor yr haf a'r gwyliau yn dirwyn i ben a'r dydd yn tynnu i mewn, er mae yn rhaid dweud na chawsom fawr o haf eleni eto. Er fod digon o Saeson yn mynd a dod i'r ardal, a'r rhan fwyaf ohonynt â dim syniad i ble maent yn trio mynd! Fe fydd tymor yr hydref efo ni yn reit fuan a gobeithio am Haf Bach Mihangel.

A'r gwyliau yn tynnu tua'r terfyn, caredm dymuno yn dda i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol ac yn mynd i'r coleg neu i swydd arall. Rhaid cofio am y rhai bach fydd yn gorfod mynd i'r ysgol am y tro cyntaf, gan newid eu byd bach diniwed yn gyfan gwbl am byth, gan gofio nad oes ganddynt syniad beth sydd o'u blaenau, llawer o golli dagrau gan fam a phlentyn. Pob lwc iddynt i gyd.

Llongyfarchiadau calonnog i Miss Valmai Davies, 10 Bro Elidir, ar ei hymddeoliad ar ôl blynyddoedd maith fel prifathrawes Ysgol Hirael, Bangor. Gobeithio, Valmai, y cei nerth ac iechyd i fwynhau dy ymddeoliad, gan y bydd yn newid mawr iti. Pob bendith i'r dyfodol.

Marwolaeth Ar 24 o Orffennaf fe fu farw Mrs Phyllis Menai Williams yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, o Ffrwd Cae Du, Bontnewydd.

Yr oedd yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Thomas Jones, Allt Ddu Cottages, ac yn ddiweddar o 6 Bro Elidir ac yn chwaer i'r ddiweddar Betty Florence. Fe fu iddi briodi â William E. Williams a fu yn dreifio i Crosville ac yn gweithio y rhan olaf ei oes yn dreifio i'r Bwrdd Dŵr. Yr oedd y ddau yn hapus iawn, er rai blynyddoedd yn ôl bu raid i Phyllis orfod cael torri ei choes.

Bu yn gweithio mewn llawer man a phawb yn ffrindiau mawr â hi. Bu i Wil Bach farw rai blynyddoedd yn ôl ac, er ei hanabledd, dal ati wnaeth Phyllis i ffynnu i'r oedran teg o 90.

Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Iau, 4 Awst. Colled fawr i'r teulu a chydymdeimlwn yn ddwys â nhw yn eu galar. Un arall o blant yr ardal wedi ei cholli.

Tyfiant ar y Ffordd Rhyw brynawn yn nechrau Awst a finnau ar dipyn o frys i gyrraedd adref fe fu imi fod yn hynod o wirion. Bu imi ddod i fyny Fachwen i drïo arbed amser. Welais i erioed y fath gyflwr ar ffordd erioed – dim ond lled car hefo tyfiant o bob tu a dros ben y car, ac yn dywyll. Yr oeddwn yn difaru imi fod wedi cychwyn i fyny. Y llefydd sydd wedi eu gwneud i basio wedi cau hefo mieri a

gwair ond, diolch byth, ddaeth neb i'm cyfarfod, ac o mor falch oedd genyf gyrraedd y top. Dim Fachwen imi eto. Clywais rhywun o Gyngor Gwynedd yn dweud ar y bocs faint o arian maent wedi ei safio wrth beidio torri y tyfiant. Maent i'w weld yn rhoi gwerth arian o flaen gwerth bywyd. Buaswn yn falch o weld un o'r swyddogion yn trio gwneud iws o Fachwen i weld y llanast sydd arni.

Cymerwch air o gyngor gen wirion, cadw yn glir o'r ffordd o'r hen ysgol i Ben Llyn yw y peth gorau. Mae y ffordd yma yn barod i weld damwain yn digwydd. Welais i erioed y fath gyflwr ar ffordd, cywilydd mawr i swyddogion Gwynedd. Yn yr Ysbyty Da deall fod Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl triniaeth ac yn gwella yn dda. Cymerwch ofal, Elizabeth, inni gael eich gweld o gwmpas eto.

Hefyd mae Mrs Margaret Cynfi Griffith yn dal i fod yn Ysbyty Eryri. Dymunwn yn dda iawn iddi hithau, mae ei lle yn wag iawn yn y capel. Cofion atoch, Margaret.

A r h o l i a d a u Llongyfarchiadau mawr i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau, gan obeithio eu bod yn hapus efo'u canlyniadau fel y byddant yn gallu mynd

ymlaen â beth bynnag yr oeddynt wedi edrych ymlaen i'w wneud. Os nad oeddynt yn llwyddiannus y tro yma, gwell lwc y tro nesaf. 'Dyfal donc a dyr y garreg'. Peidiwch â digalonni. Dymuniadau gorau iddynt i gyd a phob bendith i'r blynyddoedd a ddde.

Eisteddfod Mynwy Llongyfarchiadau mawr i Seindorf Arian Deiniolen ar eu llwyddiant yn derbyn y wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol dan arweiniad Lois. Yr wyf yn meddwl ichwi chwarae yr emyn 'Abide With Me' yn wych, mae yn rhaid cyfaddef fod deigr yn y llygaid. Diolch ichwi am roi ardal y chwareli ar y map. Mae Lois, wrth gwrs, yn ferch i Marina, Ty'r Ysgol, ac wedi byw cryn dipyn yno. Da iawn a dal ati efo hwy, Lois.

Fel petai hyn ddim digon daeth Lois, Anest a theulu Hendre Cenin yn gyntaf hefo'r pedwarawd, wedi cael eu dysgu gan eu tad, John Eifion. Teulu cerddorol iawn. Yn goron ar y cyfan Côr Meibion y Brythoniaid yn dod yn gyntaf allan o wyth, eto dan arweiniad John Eifion. Eisteddfod i'w chofio i'r teulu.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i bawb o fro yr Eco a dderbyniodd wobwr yn yr eisteddfod. Da iawn chi i gyd.

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage

LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Gwesty Dolbadarn

Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI

<http://dioni.co.uk>
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

Hyn ac Arall

Gwario'n Ofer? Nage! Prynu tra bo'r cyfle ar gael, ac yna Gwerthfawrogi

Taro ar boster! Ie, dydd Sadwrn, 28ain mis Mai eleni, tra'n cribinio mewn Ffair Hen Bethau, a'r union un a gynhaliwyd ar Faes Mona, Ynys Môn, Mam Cymru. Hysbyslen? O'r eiliad y'i gwelais mi wyddwn y buaswn ymhen eiliadau hefo chwe phunt yn llai yn fy mhoced, ond serch hynny'n gyfoethocach o'r hanner wrth imi fwrw ati i brynu poster lliw o'r Wyddfa hefo'r geiriau canlynol arno: 'Rob Piercy Dyfrlliwiau. Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis Mai 1af Gorffennaf 4ydd 1993.'

Wn i ddim amdanoch chi, ond hwyrach, fel minnau i'ch canlyn, na fuodd eich traed ar gyfyl yr arddangosfa dan sylw. Colli cyfle, (fel arfer!) a wnes i. Dyna fo, ta waeth bellach ynte, heblaw gweld yr Wyddfa bob bore, hynny ar dywydd braf, y mae'r poster wedi ei osod ar fur 'Y Nyth' (yn gam os rhywbeth, ond dyna fo ni fues i rioed yn bin mewn papur). Serch hynny, mi wn, wedi codi o'm gwely yn y bore, hyd yn oed wrth noswyllo, fod yr Wyddfa, erbyn hyn, cymaint yn nes ataf!

Pwy ydi Rob Piercy? meddech chi. Arlunydd, peintiwr penigamp, a Chymro i'r carn ydi Rob. Ganed ym Mhorthmadog a hynny n y flwyddyn 1946. Bu'n athro Celfyddyd am bymtheng mlynedd yn Ysgol Eifionydd, ac yna'n y flwyddyn 1989 gadawodd ei swydd er mwyn dechrau gweithio'n llawn amser fel arlunydd. Arferai Rob ac Enid, ei wraig, fyw dros ffordd inni yn Noddfa, Talsarnau, Meirionnydd. Bryd hynny, fe wyddem ni am ei ddawn fel arlunydd, ac hefyd ei ddiddordeb angerddol mewn mynydda a throedio traethau.

Ymhlith darluniau cwbl drawiadol Rob ceir nifer o'r Wyddfa, e.e. O'r Glyder Fawr, afon Glaslyn, llyn Padarn, llynau Mymbyr, Dyffryn Nantlle, y Grib Goch a'r hen fynydd nodedig.

A'r hysbyslen a ddaeth acw i aros? Dyfrlliw ydyw'r darlun gwreiddiol, 375 wrth 550mm ac yn olygfa gwerth ei chael bob gafael, yn ysbrydoliaeth ynddi ei hunan, o'r Allt a elwir Maenderyn a'r Clogwyn Du. Os ydych eisiau gwybod sut y bu i arlunydd penigamp fel Rob Piercy fynd ati i roi'r cyfan ar ganfas yna, a diolch i lyfrgellwyr ddoe a heddiw, yn eu plith Mr Jenkin Morgan Griffith, Bethel, Cymro twymgalon, cyn-lyfrgellydd y Sir gwerth ei gael, am ofalu bod llyfrau gwerth eu cael ar silffoedd llyfrgelloedd Gwynedd. Holwch da chwi, yn y llyfrgell agosaf atoch chi, am gyfrol ryfeddol sy hefo'r teitl Mynyddoedd Eryri (2008) Rob Piercy, ac mi gewch weld y modd yr aeth ati, a hynny ar sawl achlysur, boed hindda neu ddrycin, i bortreadu'r Wyddfa. Ein diolch i Rob, ac hefyd lyfrgelloedd, sef cynhalwyr trysorau ein gwlad, am eu cymorth parod tra'n rhoi'r erthygl hon, fesul carreg arw a chlogwyn hyll-dremog, wrth ei gilydd. Na! nid ydynt, welwch chi, ond rhan

annatod o gadernid Cymru a phrydferthwch naturiol y mae'n rhaid ei gydnabod a'i lwyr werthfawrogi! Ie, yng Nghymru rydym ni'n byw. Gwerthfawrogwch hynny, da chwi!

Arlunwyr fydd yn hawlio pob dernyn o'r golofn y mis nesaf hefyd, hynny ydy os caf ddigon o blwc a nerth ac iechyd, ran hynny, i'w chwblhau. Does ond byw mewn gobaith tan hynny. Hwyl am y tro.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwyng
7.00pm ac 11.00pm

Un funud fach ...

BUDDUGOLIAETH DDOE

Digwyddodd. Darfu. Ac i lawer ohonom, dyna ddiwedd pob sôn am Jiwdo, Taikwando, Pêl Foli'r Traeth, Dressage a sawl camp arall nes y daw'r Gemau Olympaidd nesaf heibio ymhen pedair blynedd. Aeth rhai adref o Rio ar ben eu digon, wedi gwireddu eu holl freuddwydion. Dychwelodd eraill oddi yno'n llawn siom. I lawer, fel Ussain Bolt, pen draw'r daith oedd Rio; y tro olaf iddyn nhw gystadlu ar y llwyfan hwn. Ond mae eraill eisoes yn edrych ymlaen at y Gemau nesaf yn Tokyo yn 2020: rhai'n benderfynol o wneud yn well y tro nesaf, a rhai á'u bryd ar gadw eu coron.

Wedi blynyddoedd o ymarfer ac ymdrech, mae rhai o'r pencampwyr hyn eisoes yn paratoi at y Gemau nesaf. Yng nghanol y dathlu i gyd, maen nhw'n deall na ellir eistedd ar eu rhwyfau. Os am lwyddo eto, bydd rhaid wrth yr un ymroddiad a dyfalbarhad. Bydd llwyddiannau Rio yn gysur ac yn ysbrydoliaeth dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Ond ar un wedd, mae hyd yn oed y medalau aur wedi eu hanghofio, á'r athletwyr yn sylweddoli na all llwyddiant ddoe warantu llwyddiant yfory. Ni allwn ond edmygu ymroddiad a phenderfynoldeb o'r fath.

Fedrwn ni ddim bodloni ar lwyddiant ddoe. Buan iawn y daw myfyrwyr ysgol a choleg i ddeall hynny. Wedi llwyddo unwaith, mae angen dal ati a chyrchu at y nod nesaf. Mewn pob math o feysydd, mae ddoe wedi mynd, a llwyddiannau yfory yn mynnu ein hymroddiad heddiw.

Ac eto, i bobl y Ffydd, buddugoliaeth ddoe yw sail ein gobaith. A ninnau'n gwybod na all ein hymdrechion pennaf na'n gweithredoedd gorau fyth fod yn ddigon i ddod â ni i mewn i deyrnas Dduw, diolch a wnawn am ymdrech fawr Iesu Grist ar Galfaria. Trwy ei ddioddefaint a'i farwolaeth, cafodd Iesu'r gorau ar y gelynion sy'n bygwth y ddynolryw. Am y fuddugoliaeth honno y soniai Ann Griffiths pan ganodd am ei hannwyl Waredwr:

'Mae'n Dduw i gario'r orsedd

ar ddiafol, cnawd a byd.'

Am y fuddugoliaeth honno y mae dilynwyr Iesu Grist yn dal i ganu heddiw. Ac amdani y bydd ei Eglwys yn canu am byth gan mai buddugoliaeth ddoe yw buddugoliaeth heddiw ac yfory, a buddugoliaeth dragwyddol pob un sy'n credu ynddo.

JOHN PRITCHARD



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Sefydliad y Merched



Ar Awst 13eg cynhaliwyd Arddangosfa Goginio a Gosod Blodau yn y Ganolfan yn Llanberis gyda bwffe yn dilyn.



Bu'r llywydd, Pat Jones, a'r Ysgrifennydd, Carol Houston, yn cynrychioli'r Sefydliad yn y Cyfarfod Blynnyddol llwyddiannus a diddorol yn Brighton. Cafwyd unfrydedd yno ar y ddau argymhelliad oedd gerbron sef rhoi Gofal Priodol i Gleifion Dementia ac Osgoi Gwastraffu Bwyd.

Yn ystod Gorffennaf bu aelodau'r gangen yn mwynhau noson o adloniant wedi ei threfnu gan Gwenllian Edwards i weld y 'Sound of Music' yn Venue Cymru, Llandudno.

Y prif weithgaredd yn ystod y mis fodd bynnag oedd dathlu 75 mlynedd ers sefydlu cangen o Sefydliad y Merched ym Mrynrefail - hynny y 1941. Cafwyd cinio i ddathlu'r amgylchiad yng Ngwesty Fictoria, Llanberis gyda theisen wedi ei chynllunio a'i haddurno yn arbennig iawn gan Julia Gillygan.

Profedigaeth Ar Awst 2il yn sydyn yn ei gartref Min y Don, bu farw Hugh Evans yn 79 mlwydd oed. Wedi ei fagu ym Mhant y Buarth, chwith yw ei golli o'n plith. Byddwn yn cofio am ei sgysiaid diddorol am fro ei febyd ac am ei atgofion melys am gymeriadau y gymdogaeth y bu'n trigo yn eu mysg gydol ei oes. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i briod Dilys, y plant, Marian, Euron, Einir a Bryn, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolch Dymuna Dilys, Marian, Euron, Einir a Bryn Min y Don, a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt o golli priod, tad a thaid annwyl yn frawychus o sydyn. Derbyniwyd rhoddion hael er cof am Hugh tuag at Feddygfa Llanberis.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Gorffennaf 14eg. Dafydd Ellis oedd llywydd y noson a chyflwynodd ddefosiwn oedd yn arwain yn bwrpasol iawn at destun y noson sef y diwydiant yswiriant. Y siaradwr gwadd oedd Gwyn Hefin Jones. Rhoddodd gefndir byr o ddatblygiad y maes yswiriant ac asesu risg dros y ddwy ganrif ddiwethaf. Cyfeiriodd at gyfraniad tri Chymro a ddaeth yn allweddol iawn yn natblygiad y cwmnïau yswiriant mawr, sef Richard Price, Edward Lloyd (sylfaenydd Lloyd's of London) ac yn arbennig Griffith Davies o'r Groeslon. Ychydig o addysg ffurfiol a gafodd Guto ac aeth i weithio i chwarel y Cilgwyn. Dangosodd ddiddordeb mawr mewn mathemateg ac yn fuan iawn llwyddodd i addysgu ei hun cyn penderfynu hwylio o Gaernarfon i Lundain ar long fechan.

Llwyddodd i wella ei Saesneg, a datblygu ei fathemateg gan gymryd diddordeb eang ym maes Yswiriant. Cyn hir daeth yn Afrifydd (Actuary) llwyddiannus ac yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol - dyma hogyn uniaith Gymraeg o Arfon a gododd i frig rhai o gwmnïau yswiriant mawr Llundain. Gwnaeth gyfraniad sylweddol yma yng Nghymru drwy gynorthwyo Telford i gynllunio Pont y Borth, achub tir comin cymuned Llandwrog o afael y tirfeddianwyr a rhoi sylfaen gadarn i ddatblygiad Enwad y Presbyteriaid.


Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn gan bawb y sgwrs am ŵr nodedig iawn o Gymro nad oedd efallai yn wybyddus iawn i lawer ohonom ond sydd wedi cael ei gydnabod fel arbenigwr yn ei faes ar lefel genedlaethol.

Oedfaon Medi am 5 yr hwyr

4: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

18: Mr T. Alun Williams, Caernarfon

25: Parch Gwenda Richards, Caernarfon



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Blwyddyn yn yr Ariannin.

Treuliodd Ffion Wyn Roberts o Lanrug flwyddyn yng ngwlad Ariannin fel rhan o'i chwrs gradd. Dyma rai o'i hargraffiadau am y cyfnod:

Ar ol astudio ar gyfer TGAU Sbaeneg yn Ysgol Brynrefail mi es i Brifysgol Efrog i wneud gradd Sbaeneg a Ieithyddiaeth. Fel rhan o'r cwrs pedair blynedd, mae'n rhaid treulio blwyddyn dramor er mwyn ymarfer yr iaith Sbaeneg a dysgu mwy am wledydd a diwylliannau sy'n gysylltiedig a'r iaith.

Penderfynais mai mynd yn bell bell I ffwrdd ar ben fy hun am flwyddyn gyfan fyddai'r ffordd mwyaf effeithiol o wneud hyn a dewisais fynd i'r Ariannin. Cefais fy nerbyn ar raglen 'Teach Argentina' sydd yn darparu profiad gwaith I fyfyrwyr yn dysgu Saesneg mewn ysgolion, canolfannau addysg a gwersyll iaith. Roedd y rhaglen yn trefnu llety gyda theuluoedd lleol ar y gyfer y myfyrwyr er mwyn iddynt brofi diwylliant y wlad ac ymarfer yr iaith.

Felly yng Ngorffennaf 2015 glaniais efo fy rucksack yn Buenos Aires. Ar ol pythefnos o hyfforddiant mi es i weithio mewn ysgol y tu allan i'r brifddinas. Yn ystod y flwyddyn fe wnes i weithio mewn pedwar lleoliad gwahanol. Mi ges I gyfle I ddysgu o'r dosbarthiadau meithrin hyd at ddosbarthiadau i oedolion. Roedd hi'n ddiddorol iawn gweld sut oedd y gwahanol oedrannau'n ymateb i ddysgu iaith ac roedd hi'n sialens ddyddiol i addasu'r dysgu siwtio'r gwahanol ddysgwyr. Yn ogsytal a dysgu Saesneg roedd cyfle I mi wella fy Sbaeneg a dysgu sut i fod yn Archentwraig! Y rhan orau o'r rhaglen oedd gweithio yn y gwersyll iaith. Roedd plant yn cael cyfle i ddysgu am ddiwylliannau gwledydd Saesneg eu hiaith drwy gyfrwng gwahanol themau e.e. Brwydr Bandiau yr 80au, Robin Hood a Hud a Lledrith. Roedd y plant yn dysgu Saesneg drwy gael hwyl yn goginio, dawnsio a chwarae 'human Mario Kart'. Roedd y pwll nofio a gemau dwr yn ffefryn mawr gan y rhan fwyaf ohonynt!

Gan fy mod yn byw yn nhalaith Buenos Aires roeddwn yn gallu ymweld a'r brifddinas liwgar yn aml iawn. Roedd digon i'w weld ac i'w wneud yna a'r bobl yn gyfeillgar.

Treuliais y Nadolig gyda theulu o'r ganolfan iaith yn nhref Moreno, tu allan i'r brifddinas. Profiad gwahanol iawn gan mai'r haf oedd hi yn yr Ariannin. Cawsom barbaciw Noswyl Nadolig ac roedd hi'n boeth iawn ar ddiwrnod Dolig. O fis Ionawr i fis Mawrth cefais gyfle i deithio - mi es i i Uruguay, i dde'r Ariannin ac i dde Chile. Mi wnes i ymwled a dinas mwyaf deheuol y byd - Ushuaia - a'r rhewlif enwog - Perito Moreno. Pan ddaeth yr Hydref mi es i i ymweld a Rhaeadrau Iguazu sydd ar y ffin rhwng Brasil, Paraguay a'r Ariannin.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn brofiad anhygoel ac mae fy Sbaeneg wedi gwella'n eithriadol. Cefais flas ar fywyd a diwylliant hollol wahanol yr ochr arall i'r byd. Dwi wedi cael cymaint o gyfleuoedd newydd ac wedi gwneud ffrindiau am oes o bob cwr o'r byd. Dwi'n argymhell i bob myfyriwr wneud rhan o'u cwrs dramor, does dim rhaid astudio iaith mae yna gyfleuoedd ym mhob maes.

Mae hi'n anodd dewis fy hoff ran o'r flwyddyn dramor - mae hi'n hawdd dewis y rhan gwaethaf - sef defnyddio yr un un dillad o fy rucksack o ddydd i ddydd am y flwyddyn gyfan! Ond mae un peth yn bendant - byddaf yn dychwelyd i'r Ariannin cyn gyntad a phosibl!

Ffion

Argentina

- International boundary
- Provincia boundary
- ★ National capital
- ⊙ Provincia capital
- Railroad
- Road



Ar ben arall i'r lein

Ar 29 Gorffennaf daeth dyfarniad Llys Apêl ar ein cais i geisio cael Cyfoeth Naturiol Cymru i gadarnhau fod problem llygredd o waith carthffos Llanberis yn gyfrifol, neu o leiaf yn rhannol gyfrifol, am broblemau'r torgoch. Fel yr oeddem yn disgwyl, disgyn wnaeth ein achos ar y sail nad oedd y llygredd carthffos a'r algai gwyrdd/las ddim i wneud â thrafferthion y torgoch.

'Roedd yr Uchel Lys yn barod wedi cadarnhau fod arllwysion o waith Llanberis yn gyfrifol am lygru'r dyfroedd ond nad oedd y llygredd yma ddim i wneud â phroblemau 'r byd pysgodfaol (os fedrwch chi wneud synnwyr o hynna?) Felly, sail ein apêl oedd, os oedd llygredd yn achosi problemau i ddŵr y llyn yna mae hynny yn sicr o fod yn cael effaith negatif ar y pysgod.

'Rydym wedi bod yn disgwyl penderfyniad y llys ers cryn amser, ond roeddem wedi cael si mai gwrthod fuasai'r canlyniad, oherwydd yr oblygiadau os byddai'r apêl yn cael ei gadarnhau. Buasai hyn yn golygu bod pob awdurdod dŵr y deyrnas yn gorfod uwchraddio eu gweithfeydd carthffos er mwyn lleihau arllwysadau ffosffadau a chodi safon glendid cyffredinol eu safleoedd. Ac mae gwirionedd yn yr hen ddywediad mai diwedd y gân yw'r geiniog! Ia, does dim digon o arian ar gael i fynd i lawr y ffordd o orfodi peth fel hyn, gan na fuasai ddim diwedd ar godiadau yn ein trethi dŵr. Na chwaith bod digon o arian ym mhwsr ein cynrychiolwyr i ymladd achos fel hyn ymhellach. Mae ein costau ar ein rhan nawr dros £50,000. Ond, wrth gwrs, nid ar ran y gymdeithas bysgota'n unig mae'r achos yma wedi ei ddilyn, mae ar ran yr ardal yn gyffredinol. Cofiwch, amlygwyd problemau Padarn yn fuan yn 1992 ac mae'r awdurdodau wedi dadlau fod dim wedi bod o'i le yn null gweithredu Dŵr Cymru. Do, yn 1993, er syndod i pawb fe gollwyd achos llys arall yn erbyn yr awdurdod Dŵr. Dyma mewn ffordd oedd eu trwydded i ddal i lygru, a rhoi esgus parod i'r rhai fel yr Awdurdod Afonydd a'i dilynwyd, sef Asiantaeth yr Amgylchedd wedyn Cyfoeth Naturiol Cymru, i ddiystyru'r problemau.

Fodd bynnag, er ein siom ar un llaw, ar y llaw arall 'rydym wedi cael buddugoliaeth ysgubol yn erbyn y pedwar sefydliad sy'n gyfrifol am yr holl broblemau. Rhain yw Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cwmni First Hydro a Llywodraeth Cymru. Fel hyn mae hi - os mai ofer oedd ein ymdrechion yn y llys, does dim os bod hyn wedi rhoi'r nerth i'r sefydliadau yma wneud rhywbeth drastig, a thrwy ffyrdd dirgel y llywodraeth mwyaf tebyg. Cysidrwch hyn - mae Dŵr Cymru yn gwario dros £7 miliwn ar sustem carthffos Llanberis, mae gwaith ar ddechrau ar dwnelu drwy graig Llain Wen i ailgyfeiro'r afon o'r sustem garthffos. Mae gwaith tebyg wedi bod yn mynd ymlaen ers dros dwy flynedd mewn lleoliadau eraill ym mhentref Llanberis. Mae peiriant tynnu ffosffadau newydd ar ddull chwyldroadol ym Mhrydain wedi ei allforio o'r America yn cael ei rhoi ar waith. Mae gweithfeydd carthffos newydd yn barod wedi eu cwblhau yn Nant Peris a Crawia.

Mae First Hydro ar waith i newid arllwysiad Llyn Peris yn union i Afon y Bala er mwyn osgoi rhan o'r Afon Hwch ble mae'r torgoch

yn bwrw grawn, yn ogystal mae trafodaeth ar sut i ehangu'r gwlaû claddu drwy ddefnyddio gro sydd yn cael ei dynnu o geg y twnnel yn Nant Peris. Mae'r cwmni i'w weld yn awyddus i gadw beth yw cost y gwaith yna yn gyfrinachol, neu nid ydynt am ddatgelu'r swm i'r gymdeithas.

Does dim dwywaith fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn flaenllaw yn gorfodi'r gwaith yma, a chware teg iddynt, ond pam bod mor dan-din yn dadlau yn y llysoedd fod dim fawr o'i le, ac ar y llaw arall yn gorfodi gwelliannau - fedrwch chi wneud unrhyw reswm o hyn?

Mater arall sydd braidd yn ddryslyd yng ngweithredu'r corff yma yw eu bod wedi atal pob cynllun stocio oedd ar waith yng Nghymru. Hyn yn cynnwys stocio oedd wedi ei drefnu yn gyfreithiol i liniaru effaith datblygiadau a oedd yn amharu ar rywogaethau'r pysg. 'Roedd cynllun o'r fath yma i liniaru effaith gorsaf hydro Dinorwig. Ond yn lle'r cytundeb stocio mae cynllun wedi ei ddatgelu ble bod £18,000 i'w wario yn flynyddol dros bum mlynedd i wella, glanhau a chreu lle cynnau claddu'r eog a sewin. Gwariant eleni yw glanhau'r afon ym Mhenllyn ac ymhen rhyw fis bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ar y Finiog (Crawia) Yn ogystal i'r cynllun pum mlynedd mae'r gwaith stocio'r torgoch ym Mhadarn a Nant Peris i barhau.

Felly wedi'r holl waith mae brwydr Llys yr Apêl wedi ei cholli ond yn y pendraw 'rydym wedi bod yn fuddugol yn y rhyfel. Felly drwy ddiweddu ar y mater yma hoffwn ar ran y gymdeithas ddiolch o galon am gymorth a brwdfrydedd yr ychydig rai sydd wedi ein cefnogi dros y blynyddoedd, heb eu gwaith ni fuasai Llyn Padarn heddiw yn prysur ddod ato'i hun. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'n cyn Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, am ei gefnogaeth a'i gyngor parod a hefyd John Roberts, Stryd Goodman, Llanberis, am gadw llygaid barcud a'i gyfathrebu aml â'r awdurdodau am safon yr arllwysadau a glendid y dyfroedd.

Ar ôl hyn i gyd, beth am y sgota? Ar y Seiont does dim llawer i'w reportio, dim ond rhyw ychydig o sewin sydd wedi dod i'r rhwyd a mi dwi'n falch o ddweud fy mod wedi cael un o'r Finiog am tua dau bwys, a blasus dros ben oedd o hefyd. Yn ogystal clywais fod Hefin Hughes, Caeathro a Dafydd Davies, Caernarfon wedi cael dau sewin yr un a Dr Robin Parry, Llanberis gyda un o'i hoff le, sef Stablau. Mae'r brithyll i weld yn gwella gyda Stablau y lle i fod, gobeithio wir at y tymor nesaf bydd llwyddiant Stablau yn ymledu i lawr yr afon. Cyn belled ac mae'r eog yn y cwestiwn - sobor dros ben - dim un wedi ei weld, heb sôn am ei ddal.

Drosodd ar y Llyfni mae pethau yn galonogol dros ben gyda rhediadau ardderchog o sewin, y mwyaf dwi' di cael sôn amdano yw un o bedwar pwys i Kevin Morgan. Waunfawr, a'r eog trymaf am dros 11 pwys i Dylan Roberts, Penygroes. Fel y gwyddoch mae'r gymdeithas yn berchen ar Melin y Cim, Pontllyfni, ac yn rhedeg y lle fel llety hunangynhaliol, a braf yw dweud ei fod yn hynod o lwyddiannus. Y felin sydd mewn gwirionedd wedi bod yn gyfrifol am gynnal y clwb dros y blynyddoedd tywyll ac anodd yn dilyn problemau Padarn. Ond rwy'n eithriadol falch o allu adrodd fod y Felin yn un o'r llefydd gorau a chynhyrchiol i ddod i bysgota ein dyfroedd. Wythnos yn gorffen Sadwrn, 13 Awst, 'roedd un o'r gwesteion wedi dal 31 sewin o'r Llyfni ger y Felin. Tydw i heb glywed am unlle tebyg yn cynnig pysgota fel atyniad wedi cael y fath lwyddiant. Ffoniwch am bris!! ond yn anffodus mae'r lle yn llawn tan ganol Tachwedd, a'r pryd hynny bydd y tymor 'sgota ar ben - hen dro 'de!

Mae'r llynnoedd yn dal i 'sgota'n ardderchog gyda Cwellyn i weld unwaith eto yn croesawu pysgod mudol, hyn yn bosib drwy i Ddŵr Cymru osod llwybr pysgod newydd yn yr argae. Mi fachodd Gareth Bryfdir Jones o Bontnewydd sgodyn arian trwm yng nghanol y llyn, ond yn anffodus mi falodd ei gêr brithyll tenau. Stwff trymach tro nesaf, Jô!!

Mae un 'sgotwr o leiaf yn cael gwell hwyl 'run ohonom gyda genwair - sef yr hen walch y pysgod 'na, mae'r hen foi yn ôl pob golwg yn cael helfa dda o Dywarchen a Cwellyn. Er ei fod yn un llwglyd mae werth ei weld.

Huw Price Hughes



DWBWL NODEDIG

Rhown sylw haeddianol y mis hwn i athletwraig ddawnus iawn o Lanberis sef Natalie Meek fydd yn dychwelyd i Fl.9 Ysgol Brynrefail eleni. Mae Natalie nid yn unig yn athletwraig lwyddianus ond yn ymwneud a nifer o gampau eraill. Ynm myd athletau mae’n aelod o glwb Trac a Maes Menai draw ym Mangor. Yn lleol, mae’n cystadlu yn y Kayak fel aelod o dim Clwb Antur Dyffryn Peris. Fel nifer o enethod y fro mae’n aelod o Glwb Hoci Caernarfon, ac hefyd yng ngharfan Pêl-rwyd Gogledd –Orllewin Cymru. Tipyn o amrediad, ac yn cynnig digon o ddewisiadau i ganolbwyntio arnynt yn y tymhorau nesaf. Ond, ar yr athletau rydym am ganolbwyntio y tro hwn gan i Natalie gipio dau dlws nodedig yn ddiweddar.



Yn gyntaf y Victrix Ludorum am y marciau unigol gorau ym mabolgampau Ysgol Brynrefail. Roedd Mary, y wraig, yn gyn-ennillydd y Tlws, ac yn dweud mai eithriad oedd i ddisgybl mor ifanc gipio’r tlws nodedig yma. Ar y dydd ennillodd Natalie rasmus y 1500m, 800m, 300m a chystadlaethau taflu’r picell a’r naid driphlyg. Daeth yn ail yn y 100m tu ôl i Anya Williams, athletwraig arall ddawnus gafodd gryn sylw yn yr Eco. Yna, ar ddydd Râs yr Wyddfa, Natalie oedd ennillydd Râs y Plant dan 14. Tybed os bydd Natalie yn cael ei symblu gan lwyddianau nifer yn yr Olympiad eleni. Dyma rai sydd wedi dioddef blynyddoedd o lwyr ymroddiad. Onid braf fuasai cofnodi llwyddiant un o Fro’r Eco yng Nghemau’r Gymanwlad neu’r Olympiad. Dim ond breuddwyd oedd hyn i’r rhai llwyddianus yn Rio ar un adeg. Amser a ddengys. Gyda llaw, mae’n siwr fod tad Natalie, Colin yn gobeithio y daw trydydd tlws i’r tŷ eleni, gyda Manchester City yn cipio’r Uwch Adran yn Lloegr. No way, Jose!

BRODYR CAIN YN ‘ABEL’ IAWN

Wedi gwres y dydd, roedd y tymheredd wedi disgyn ac yn ddelfrydol ar gyfer y ddwy râs sy’n rhan o weithgareddau Gŵyl Bethel. Dyma rasmus sydd wedi dod yn boblogaidd iawn gyda nifer o redwyr o glybiau rhedeg swyddogol yn ymuno â’r rhedwyr lleol. Y râs gyntaf yw’r râs hetar, ras o rhyw filltir o hyd, yn gylch o’r neuadd i lawr at Gapel Bethel, troi ar hyd y lôn bost, heibio’r Post ac yn ôl i’r neuadd. Ras i’r ieuencid yw hi yn y bôn, ond braf yw gweld nifer o rieni’r pentref yn rhedeg llaw yn llaw gyda’u plant. Mae rhai o’r plant cyn hyned a phedair oed, ond yn mentro’n hyderus. Roedd 61 wedi cofrestru ar gyfer y râs hon eleni. Roedd gweld y wên ar wynebau pob rhedwr yn derbyn eu medal ar y diwedd yn cadarnhau pwysigrwydd unrhyw weithgaredd sy’n denu cymuned at ei gilydd. Ennillydd y râs oedd Jac Cain o Gaernarfon, ac mewn sprint olaf haeddianol o Rio, daeth Cai Moss yn ail o drwch blewyn, gyda Dylan Worsley yn drydydd. Llwyddiant yr hogiau lleol yn plesio’r dorf niferus yno i gefnogi. Yna Râs 7Km yr Ŵyl, yn arwain ar hyd y gwastadedd i’r Gelli Gyffwrdd, i lawr yr allt i’r Felinheli, yna’r ddringfa raddol heriol o’r Wern yn ôl heibio Carreg Goch a throad Bethel cyn anelu yn ôl i’r Neuadd Bentref. Roedd 107 wedi cofrestru eleni a chyn ddyfalu os buasai record Jim Bacon (22:47) y llynedd yn cael ei thorri. Eto caed amrywiaeth o oedran o’r ardegau cynnar

DERBYN GRANT SYLWEDDOL

Roedd carfan chwaraeon Bethel yn dathlu yn ddiweddar gyda’r newyddion fod grant sylweddol o £32000 wedi ei ddyfarnu i ddau o glybiau y pentref sef y clwb Pêl-droed a Chlwb Snwcer y pentref. Daeth y mwyafrif o’r dyfarniad o goffrau Cyngor Chwaraeon Cymru a Chist Gwynedd. Mae diolch dyladwy i’r cynghorydd Sion Jones am ei waith di-flino yn chwilio am a denu y grantiau. Bydd swm sylweddol o’r arian yn mynd i wella system traenio y cae pêl-droed. Eisioes mae’r gwaith wedi dechrau a’r pibellau wedi eu gosod yn y rhychau. Ar hyn o bryd mae timau ieuencid bechgyn a merched yn y pentref a byddant hwy yn elwa yn sicr o’r cyfleusterau newydd. Bydd tri tim merched yn y pentref tymor nesaf. Ni wyddys hyd yn hyn os oes bwriad i ail-gychwyn tîm hŷn yn y pentref. Bydd £1500 yn mynd i’r clwb snwcer gyda’r bwriad o ddenu mwy o chwaraewyr ieuanc. Bydd rhan o’r arian yn galluogi’r clwb i bwrcasu bwrdd newydd ac adnewyddu cyflwr bwrdd arall. Gyda’r clwb bowlïo yn dal i ennill poblogrwydd mae’n amser ddiddorol ym myd y campau ym Methel.

DECHRAU BODDHAOL Bydd tri phrif dîm y fro yn weddol fodlon gyda’u dechreuadau i’r tymor pêl-droed newydd. Wedi tair gêm gynghrair ‘dyw Llanrug heb golli gan ennill un a dwy gêm gyfartal. Draw yn Llanberis, ennill un colli un ag un gyfartal, ond Guto Llywelyn wedi ei drosglwyddiad o Waunfawr yn denu sylw cynnar. Ennill un a cholli un yw record Waunfawr. Mae’n siwr mai brwydro am y tlysau fydd yr hanes eto eleni gydag adran un Cyngrair yr Alliance yn edrych yn gryfach y tymor hwn. Un peth, gobeithio y bydd mwy o drefn ar restru’r gemau eleni ac na chawn y fath bentyru gemau diwedd tymor a welwyd y llynedd. Diddorol sylwi na fydd Cynghrair y Sul eleni oherwydd diffyg timau. A oes gan hyn rhywbeth i wneud a’r ffaith bod nifer o dafarnau – prif noddwyr y timau – erbyn hyn yn gwegian.

GWADDOL? Ym myd y campau mae’n siwr na welwyd y fath haf i ni’r Cymry. Wedi llwyddiant y tîm pêl-droed draw yn Ffrainc, yna perfformiadau rhyfeddol euraidd sawl Cymro/ Cymraes draw yn Rio mewn sawl camp. Os bu symbyliad i ieuencid erioed wel dyma’r amser. Yr hyn sy’n drist yw bod y llwyddianau hyn yn cyd-amseru â’r sefyllfa mewn sawl sir ble mae Canolfanau Chwaraeon dan fygythiad a’r gwariant ar gyfleusterau ysgolion a chanolfanau lleol yn lleihau’n sylweddol. Mae cryn bwysau ar y Cynulliad i ymateb i’r sefyllfa argyfyngus yma all lesteirio y cynnydd mewn diddordeb i gymryd rhan mewn chwaraeon. Yn sicr ni welais gyfnod ym myd y campau gyda’r fath falchder mewn Cymreictod. Diddorol oedd sylwi ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol fod y crysau pêl-droed bellach yn llawer mwy gweladwy na’r crysau rygbi. Yn sicr mae’r Gymdeithas Bêl-droed wedi gwneud cam sylweddol ymlaen mewn dau faes – defnydd o’r iaith Gymraeg ac ym mhrisiau tocynnau. Cymharer £20 neu lai i weld Cymru yn herio Gwlad Belg neu £80 i weld Cymru mewn gemau Chwe Gwlad. Yma eto edrychwn ymlaen i weld ymateb Undeb Rygbi Cymru. Tra’n derbyn fod angen talu’r ddyled ar stadiwn wych y Principality, onid yw canran uchel o elw’r undeb yn mynd ar gynnal y pedwar rhanbarth proffesiynol gyda’u tramorwyr ar gyflogau uchel eto yn denu torfeydd tîla am ‘gêm genedlaethol’ a fawr o llwyddiant yn y Pro 12 ac Ewrop. Ie, amser diddorol ac amser i sylwi fod rheoli llwyddiant yr un mor heriol â rheoli methiant. Amser a ddengys.

i ambell un dros oed yr addewid. Rhai yn amlwg yn aelodau o glybiau a nifer yn loncwr rheolaidd. Ni thorwyd y record ond roedd nifer o’r rhedwyr sy’n gefnogwyr selog y râs wedi cael eu hamser gorau. Diddorol oedd gwrandao ar sylwadau y rhedwyr profiadol. Roeddent yn canmol y gymysgedd o dactegau anghenrheidiol o redeg ar y gwastad, i lawr yr allt, a’r ddringfa raddol. Hefyd mae’r pellter o 7Km – rhwng y 5Km a’r 10Km arferol – yn gosod sialens arall o bryd i gyflymu. Cafwyd dwbl nodedig gyda brawd Jac, sef Ryan yn ennill. Ypum cyntaf i orffen oedd: Ryan Cain (23:01) Clwb Trac a Maes Menai Andrew Savage (24:24) Cybi Striders Phil Lynes (25:01) Llanrug Aled Williams (25:15) Llanrug Ifan Jones (26:03) Clwb Eryri Gellir cael amseroedd a safleoedd y rhedwyr yn y gwahanol gaterogriau ar wefan yr Ŵyl ynghyd a thoreth o luniau. Nid ar chwarae bach mae trefnu y fath ddigwyddiad ac mae Pwyllgor yr Ŵyl yn ddiolchgar iawn o barodrwydd llawer i stiwardio, amseru, a chreu lluniaeth ar y noson. Noson lwyddianus arall ac edrychwn ymlaen i’r ras nesaf mewn achlysur sy’n cynyddu fel atyniad i redwyr o bob safon.

CPD Llanrug Mark Jat, Rheolwr y Tim 1af yn derbyn kit newydd gan Sion Stokes o Arvonias Coaches Ltd, gyda Dylan Owen (capten) ac Eifion Williams. *‘Mewn Undeb Mae Nerth’*



Chwaraeon

Tlws Yr Eco 2016



Cael a chael oedd hi eleni i gynnal y gystadleuaeth sydd wedi rhedeg yn ddi-dor ers dros 40 mlynedd bellach. Ni chynhaliwyd y gystadlaeath dan 9, oherwydd prinder timau. Mae'n siwr fod sawl rheswm am yr ymateb siomedig.

Newid yr oedrannau yng Nghyngrair Gwyrfa'i yn un. Ni allaf gredu fod y gystadleuaeth yn cyd-redeg ac Ewro 2016 wedi lladd diddordeb. Yr un oedd yn creu'r poendod mwyaf oedd y prinder niferoedd i greu timau yn ein pentrefi. Roedd hyn yn wir yn y pentrefi 'mawr' fel Llanrug a Bethel gyda chwaraewyr o'r ddau bentref yn cynhyrchioli tim Llewod Llanrug. Wn i ddim os yw hyn yn arwydd fod y syniad o dimau pentref yn prysur wanhau, a bod arwydd cynyddol yma o dimau lleol yn cynnwys chwaraewyr o ardaloedd tu allan i'r ffiniau 'lleol'. Hel timau, fel petai. Gobeithio ddim, oherwydd canlyniad hyn mewn rhai tymhorau fydd unai timau 'lleol' yn cynnwys chwaraewyr 'teithiol' neu glybiau yn dod i ddiwedd eu gyrfa.

Ymlaen i'r gemau ac yn sicr eleni gwelwyd mai gwir y dywediad 'ansawdd nid nifer'.

Roedd clwb Deiniolen wedi paratoi yn wych i ni ar ac oddi-ar y cae. Roedd maes Y Bwthyn werth ei weld a thorf dda wedi dod i gefnogi y pedwar tîm dan 11 – Llewod Llanrug (A a B), Deiniolen a Llanberis. Y drefn oedd pob tîm wynebu ei gilydd ac yna'r ddau dîm ar frig y tabl yn herio ei gilydd.

Gyda dau faes eang roedd digon o 'le' i chwarae gêm basio, a rhedeg oddi-ar y bêl.

Eto eleni gwelwyd arwyddion o'r hyfforddi sydd yn digwydd yn y clybiau. Daeth taro ergydion o bell hefyd yn elfen gyffredin. Ac hefyd, y nifer o ffasiynau gwallt Aaron Ramsey. Doeddwn i ddim yn gwybod fod cyn gymaint o rieni 'gwallt melyn' yn yr ardal.

Wedi i bawb gystadlu roedd Llanrug 'A' a Deiniolen yn gyfartal gyda 7 pwynt ond Deiniolen ar y blaen o wahaniaeth goliau, +6 yn erbyn +3. Y 'topia' yn erbyn gwaelod y dyffryn yn y ffeinal o 15 munud bob ffordd. Ac am gêm, llawn cyfleuon, tacio da a sawl arbediad cofiadwy gan y ddau gôl-geidwaid – Sion Thomas (Deiniolen) ac Aled Jones (Llanrug). Dau i gadw golwg arnynt yn y dyfodol. Pwy fydd yn gwisgo jersi gôl-geidwad tîm Ysgol Brynrefail os gwn i?

Roedd un gôl yn ddigon i gipio'r tlws, a gôl dda oedd hi hefyd. Wedi 9 munud, Ben Jones o Lanrug yn driblo heibio dau amddiffynwr ac o ongl lem yn taro'r bêl ar draws y gôl-geidwad. Yn ôl daeth Deiniolen, ac Aled yn serenu yng nghôl Llanrug.

Noson braf o bêl-droed unwaith eto, a diolch i Brian Jones a Cai Owen am eu dyfarnu synhwyrol. Diolch hefyd i'r hyfforddwyr, ac i Glwb Deiniolen (merched y siop yn arbennig) am gynnal y fflam. Edrychwn ymlaen at flwyddyn nesaf a dwy gystadleuaeth gobeithio.



Ras Plant Bethel